

ECO'R WYDDFA

Rhif 105

GORFFENNAF-AWST 1985

Pris 20c

I'CH ATGOFFA

Dyma dymor y gwyliau ar ein gwarthaf unwaith eto, a gweithwyr yr 'Eco'n' cael seibiant hyd ddiwedd Awst. Ond mae'n sicr fod pob math o weithgareddau'n cael eu cynnal yn y fro dros yr wythnosau nesaf – felly os am adroddiad arnynt, apeliwn arnoch CHWI ddarllenwyr i gadw cofnod o'r hyn sy'n disgwydd yn eich pentref chwi – mae hyd yn oed y golygyddion, y ffotograffwyr a'r gohebwy'r pentrefi angen eu gwyliau. Pan ddaw rhifyn Medi o'r wasg, waeth heb â chwyno os na fydd adroddiad am ddigwyddiad arbennig yn eich pentref chwi ynddo.

OES O WASANAETH ... I'W BLWYF

Fis Gorffennaf eleni, bydd Selwyn Griffith yn dathlu 30 mlynedd fel Clerc Cyngor Cymdeithas (a chyn hynny, Gyngor Plwyf) Llanddeiniolen. Bu gohebydd arbennig yr 'Eco' yn ei holi am ei atgofion dros y cyfnod hwnnw, a pha ddigwyddiadau sy'n aros yn ei gof:

Yn ystod blynedd cyntaf ei gyfnod fel Clerc, roedd y Cyngor Plwyf yn cyfarfod yn yr Hen Gynghorfa, Groeslon Raca; a'r lle bryd hynny'n cael ei oleuo â lampau olew. Arferai'r hen gynghorwyr gerdded yno yr holl ffordd o bob cwr o'r plwyf – a hynny wedi diwrnod caled o waith. A rhaid cofio fod Llanddeiniolen yn un o blwyfi mwyaf Arfon o ran arwynebedd, a'r pentrefi ar wasgar – o Fethel i Riwas, Dinorwig a Deiniolen, ac o Glwt-y-bont i Benisarwaun a Brynrefail.

Roedd cadw'n ffyddlon i gyfarfodydd y Cyngor yn golygu aberth y dyddiau hynny – yn golygu cerdded drwy bob tywydd. Mae pethau'n bur wahanol erbyn heddiw: amryw heb wybod pwy yw eu cynrychiolwyr ar y Cyngor, ac ambell un o'r cynghorwyr rheini heb fod mor ffyddlon â'u rhagflaenwyr. Mae Selwyn yn gwerthfawrogi gwasanaeth y gwir gynghorydd bro – sy'n rhoi ei amser i'w ardal, ond yn derbyn yr un ddimai goch o gostau am ei aberth na'i wasanaeth.

Mae tri digwyddiad yn sefyll allan yn ei olwg, sef cau'r chwareli llechi, chwalu Stâd y Faenol, a'r mewnlfriad helaeth o Saeson i bentrefi gwledig yr ardal.

Y prif newidiadau o fewn ffiniau'r plwyf yw cael goleuadau cyhoeddus, modern ar hyd strydoedd y wahanol bentrefi, a'r gwelliannau sylweddol a wnaethpwyd i ffyrdd y plwyf yn sgîl adeiladau Gorsaf Drydan Dinorwig.

Dyma rai o noedweddion eraill o Blwyf Llanddeiniolen sy'n haeddu sylw:

Mae rhan helaethaf o Gynllun Trydan Dinorwig, gan gynnwys Llyn Marchlyn, o fewn ei ffiniau. Mae hefyd dros 50 milltir o lwybrau cyhoeddus ar hyd a lled y plwyf.

Bellach, mae gan y Cyngor Cymdeithas yr hawl i ddatgan eu barn ar geisiadau cynllunio, ond prif broblem y dydd yn Llanddeiniolen, fel ym mhob Llan arall yng Nghymru yw fandaliaeth. Mae'r



Cyngor wedi apelio dro ar ôl tro ar i unrhyw un roi gwybodaeth iddynt ynglŷn â'r difrod bwriadol hwn sy'n golygu cymaint mwy o gostau i'r trethdalwyr. Yn ôl barn y Clerc, y camgymeriad mawr oedd peidio â chodi'r cysgodfannau hyn ugain mlynedd neu fwy yn ôl pan nad oedd fandaliaeth yn broblem yn y fro.

Dymuna'r 'Eco' ddiolch iddo am ei waith dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf – a hynny ar ran trigolion y fro sydd mor agos i'w galon.

O AMGYLCH GWYNEDD I GAEL NEUADD

Yn ystod mis Awst bydd dau o drigolion Penisarwaun yn gyrru car ar daith o amgylch Gwynedd i'r pwrpas o godi arian i gael neuadd i'r pentref. Trefnwyd y daith gan yrrwr y car, Arwel Jones, Pant Hywel a bydd Dafydd Evans, Sycharth yn cyd-deithio ag o.

Trefnwyd y digwyddiad ar ffurf raffl a gofynnir i'r rhai sy'n barod i brynu tocyn i ddyfalu sawl milltir (i'r filltir agosaf) a recordir ar gloc y car rhwng dechrau a diwedd y daith. Pris tocyn fydd 10c a bydd un gwobr yn unig sef £100.

Bwriedir cychwyn y daith am 8 o'r gloch y bore ger pont y Borth yn ystod yr wythnos sy'n diwedd Awst 24, a therfynnir yn yr union fan. Ceisir cadw mor agos at ffiniau Gwynedd ag sy'n bosib, heb orfod troi'n ôl o unrhyw le. Felly anwybyddir y ffyrdd i leoedd fel Penmon ac Uwchmynydd. Bydd y cwbl wedi'i drefnu'n ofalus a bydd goruwchyliaeth manwl gan berson annibynnol ar y recordio. Noson y cyffro mawr fydd nos Sadwrn, Awst 24 – pryd y tynnir y raffl.

I'R BÊL-DROED

Ddiwedd tymor 1984-85 rhoes Gwilym Williams o Gwm-y-glo ei 'sgidiau pêl-droed i'w cadw am y tro olaf. Wedi ugain tymor o chwarae, penderfynodd fod yr amser wedi dod iddo roi'r gorau iddi.

Yn frodor o Benygroes, dechreuodd ar ei yrfa gyda thimau Penygroes and District, Nantlle Vale Juniors a Nantlle Vale Reserves, gan gynnwys hanner dwsin neu fwy o gemau gyda'r tîm cyntaf – a oedd y pryd hwnnw dan reolaeth yr enwog Orig Williams – profiad bythgofiadwy i fachgen ysgol yn ei gêm gyntaf ym Mhenmaenmawr – a derbyn costau anhygoel o bunt mewn amlen! Yn cyd-chwarae ag ef yn y tîm hwnnw roedd "enwogion" byd pêl-droed gogledd Cymru – Aled Hughes, Peter Roberts, Robin Ken, a Hefin Jones a Dic Parry, bellach o fro'r 'Eco'.

Yn nhymor 1969 ymunodd â thîm Llanrug, cyn symud i Bwllheli ym 1973. Yn ystod y saithdegau, bu'n chwarae hefyd i Dalysarn (gan ennill y Gynghrair a Chwpan Alves), Llanrug (y tro hwn fel blaenwr, a sgorio 46 gôl!) a Phwllheli eto. Yn ystod ei ail dymor gyda Phwllheli fe'i dewiswyd fel gôl-geidwad i gynrychioli tîm Gogledd Cymru'n erbyn yr Alban.

Am yr wyth tymor diwethaf, bu'n



aelod ffyddlon o dîm Llanberis, ac yn ystod y cyfnod hwn yr enillodd nifer helaeth o'i 35 o dlysau amrywiol. Mae ganddo bellach dros 100 o wahanol dlysau – llawer ohonynt o fyd pêl-droed, a'r gweddill o'i ail ddiddordeb sef dartiau.

Cred fod dau uchafbwynt wedi bod yn ystod ei gyfnod fel pêl-droediwr. Yn y cyfnod o 1980-82, enillodd Llanberis Gwpan Cyfryngol Gogledd Cymru, ac yntau ar y pryd yn chwaraewr-reolwr arnynt. Yn ystod y blynedd hyn hefyd, enillodd Llanberis dlws y Gynghrair ddwywaith, Cwpanau Alves a Moorings a Tharian Marconi.

Yr ail uchafbwynt oedd yn nhymor 1981, ac yntau'n rheolwr tîm bechgyn Cwm-y-glo (swydd y mae'n parhau ynddi heddiw). Y flwyddyn honno enillodd y tîm Dlws Lonsdale, gan guro tîm Penygroes yn y gêm derfynol.

Ar ddiwedd ei gyfnod gyda Llanberis, fe'i cyflwynwyd â chyfranddaliad i'w hoff dîm – Spurs. Dymunwn dymor o ymddeoliad hapus iddo – bydd chwithdod ar ei ôl ar gaeau pêl-droed Arfon – a gwagle o'i ôl yng ngôl Llanberis.



Noddir y daith gan John Trevor, Garej Hafod, Llanrug, a'r car a ddefnyddir fydd Talbot Solara.

ECO'R WYDDFA

RHIF 105
GORFF-AWST 1985

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Amranwen Lynch, Gwyddfor,
Penisarwaun (Llanberis 870575).

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs. Jane
Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis.
(871561)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 77163).

Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn
Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithnog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa
(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Mrs Jane Roberts, 'Rallt
Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch,
Llanberis (871561)

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

NANT PERIS: Mrs J.E. Elis, 8
Glanrafon, Nant Peris. (Llanberis
870 733).

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, 9
Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Edward Elias, 21
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
AWST 29

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
AWST 20
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

GWISGO SANAU AM GOESAU BWRDD

Annwyl Olygydd,

A glywsoch chi am yr arfer
rhyfeddol o orchuddio coesau
bwrdd â sanau gwlân? Gymaint
oedd y parch a delid i fyrdau
mahogani gan deuluoedd yn ne
Cymru ar ddechrau'r ganrif hon nes
bod y gwragedd yn eu gorchuddio
o'u pen i'w traed! Fel arfer rhoid
gorchudd chenille dros wyneb y
bwrdd a gwisgid sanau gwlân am eu
coesau. Amddiffyn y pren rhag cael
ei niweidio gan draed afrosgo oedd
pwrpas honedig y sanau.

Roedd yr arfer o guddio rhannau
arbennig o ddodrefn tŷ yn
nodweddiadol iawn o gyfnod oes
Fictoria. Ceid gorchudd yn hongian
wrth y silff ben tân a gwelid valances
yn hongian o gwmpas traed y gwely
a'r soffâ. Nid oedd yn weddus i
ddangos coesau o unrhyw fath yn ôl
rheolau moeseg y cyfnod.

Yn ddiweddar, clywais am yr arfer
o guddio coesau byrdau yn ne
Cymru yn nhridegau'r ganrif hon,
arfer oedd yn deillio, yn ddiau, o
gyfnod Fictoria, ond a oedd bellach,
yn cael ei gadw o safbwynt ymarferol
yn unig. Rwyf yn awyddus iawn i
gasglu mw y wybodaeth am yr arfer
hwn yng Nghymru. Ai arfer
cyfyngedig i'r ardaloedd
diwydiannol yn ne-ddwyrain Cymru
ydoedd? A fyddid yn cuddio coesau
cadeiriau yn yr un modd? Pa fath o
orchuddion a ddefnyddid i'r pwrpas
hwn, e.e., sanau gwlân, gorchuddion
gingham? A oedd enwau lleol
arnynt?

Os oes gan eich darllenwyr
unrhyw wybodaeth perthnasol i'r
arfer diddorol hwn byddaf yn
ddiolchgar iawn os dônt i gysylltiad
â mi.

Yr eiddoch yn gywir,

S.M. Tibbott (Mrs)

Is-Geidwad

Adran Adeiladau a Bywyd Cartref

Amgueddfa Werin Cymru

Sain Ffagan

Caerdydd CF5 6XB

CYFEILLION Y DDAEAR

Annwyl Olygydd,

Lansiwyd FoE CYMRU ym mis
Rhagfyr 1984 fel rhan o fudiad y
FRIENDS OF THE EARTH dros y
Deyrnas Unedig. Sefydlwyd FoE
CYMRU yn arbennig i dynnu sylw at ein
hamgylchiad yng Nghymru ac at yr
angen i ni fod yn ymwybodol iawn
heddiw o'r hyn sydd yn digwydd i'n
gwlad. Canys yma yng Nghymru y
digwyddodd peth o'r difrod diwydiannol
gwaethaf yn y gorffennol.

Rhan annatod o unrhyw fudiad
diogelu yng Nghymru gyfoes yw bod yn
ymwybodol o'n hiaith ac y mae'r
pwyslais ar ddwyieithrwydd yn
adlewyrchu agwedd llawer iawn o'r
Cymry ynglŷn â dyfodol i'r iaith sy'n
gallu cael ei diogelu wrth i ni
weithredu'n lleol trwy'r Gymraeg; ond
Cymry neu beidio, arnom ni i gyd y
mae'r ddyletswydd i ddiogelu
etifeddiaeth iaith a diwylliant Cymru i'r
dyfodol. Yr un yw'r neges:

CADW CYFOETH, CADW

AMRYWIAETH

Mudiad gwirfoddol newydd yw FoE
CYMRU heb unrhyw ffynhonnell
ariannol ac eithrio yr hyn yr ydym yn

gallu ei godi ein hunain trwy gynnal
ffeiriau sborion, marchnadoedd crefft,
stondinau ar gyfer gwybodaeth, noddi
digwyddiad arbennig, gwerthu baneri ac
yn y blaen.

Hyd yn hyn daethom â ffurflenni
aelodaeth dwyieithog allan er mwyn
ymuno â FoE fel Mudiad Cenedlaethol
ac y mae hynny'n anhepgorol er mwyn
cael cefnogaeth y Mudiad Cenedlaethol
i bob ymdrech leol yng Nghymru.

Er mwyn i ni weithredu'n effeithiol
trwy'r Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg
yng Nghymru y mae angen mawr arnom
ddod â ffurflenni dwyieithog allan sydd
yn canolbwyntio ar lygredd yr
amgylchedd yng Nghymru ac er mwyn i
ni gyfleu darlun llawn o Gymru gyfoes
yn ein gweithdai addysgiadol a'n
hysbysebion.

Un enghraifft o'r peth sydd gennym
mewn golwg yw ein hymdrechion
presennol yn erbyn GLAW ASID. Y
mae'r cyfryngau - rhai ohonynt trwy'r
Gymraeg - wedi rhoi amser a gofod i ni
yn ddiweddar er mwyn i ni ddod â
chanlyniadau GLAW ASID o flaen y
cyhoedd. Y mae GLAW ASID wedi bod
yn effeithio ar dirwedd Cymru ac mae
hynny wedi digwydd yn arbennig yn yr
ardaloedd gwledig lle mae'r iaith
Gymraeg yn dal yn gryf ac y mae'n
angenrheidiol i ni gynhyrchu popeth y
gallwn yn y Gymraeg er lles pawb cyn
gynted ag y bo modd. Fel y gwyddoch y
mae hynny'n gostus.

Apêl yw hon i bawb i'n cynorthwyo yn
ariannol ac yn ymarferol trwy weithio
o'u gwirfodd yn y maes newydd o wneud
Cyfeillion y Ddaear CYMRU yn fudiad
dwyieithog.

Un o'r pethau cyntaf y mae arnom
eisiau ei gyfieithu yw'r hysbyseb FoE
CYMTU ATAL GLAW ASID. Cynhyrchir taflen i roi
gwybodaeth ar
LAW ASID YNG NGHMYRU ar hyn
o bryd. Gellir addasu a chyfieithu llawer
o bosteri a thaflenni eraill i roi
gwybodaeth i bawb am broblemau
pwysig ein hamgylchedd. Am fwy o
wybodaeth gweler isod:

Ymofynner yn Gymraeg â:

David Davies,

13, Alfred Street,

MAESTEG,

Morgannwg Ganol.

(Ffôn gartref 0656 733685

Gwaith 0792 469004 Est. 228)

PENTREF TACLUSAF

Yn ystod yr haf fe fydd pentrefi ar
hyd a lled y wlad yn cystadlu yng
nghystadleuaeth Pentref Tacclusaf
Cymru a noddwyd am y tro cyntaf
eleni gan Girobanc Cenedlaethol.

Trefnwyd cystadlaethau sirol gan
Gynghorau Sirol Gwirfoddol
Cymru, ac fe fydd yr enillwyr yn
mynd ymlaen i gynrychioli'r siroedd
yn y gystadleuaeth genedlaethol, a
drefnwyd gan Gymdeithas Diogelu
Cymru Wledig.

Cyhoeddir enwau'r enillwyr a
chyflwynir y gwobrau, £250 i'r
cyntaf, £150 i'r ail a £75 i'r trydydd,
mewn seremoni arbennig ar Fedi 12
yng Ngregynog, ger y Drennewydd,
Powys.

Bu gwelliant mawr mewn llawer
pentref yng Nghymru oherwydd eu
diddordeb yn y gystadleuaeth dros y
blynyddoedd.

Dylai unrhyw bentref sydd am
gystadlu gysylltu â'r Cynghor Gwlad
Sirol.

Manylion pellach oddi wrth:
David Hide, Girobanc
Cenedlaethol, Bryste (0272
277474)

neu

Nia Trow, Cymdeithas Diogelu
Cymru Wledig, Y Trallwng, Powys.
(0938 2525)

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu
rhoddion hael tuag at gostau
cynhyrchu'r Eco:

£18.40: o gronfa'r 'Defaid diarth'
(trwy law Mr D.W. Morris, Cefn
Coch, Deiniolen).

£5: Mrs Katie Williams, Môr Awel,
Tan-y-coed.

£3: Mr Thomas Evans a'r teulu, 27
Rhydfadog, Deiniolen.

Mr Gwilym Davies, Afallon y Ddôl,
Bethel.

£2: Mr Alun Roberts, 13 Maes
Gwylfa, Deiniolen; Mrs Nesta
Jones, Llys y Gwynt, Penisarwaun;
Mrs Betty L. Roberts, 11 Maes
Eilian, Dinorwig; Mr Derek Jones,
20 Stryd yr Wyddfa, Llanberis; Mr
J. Parry Hyfrydle, Lôn Parc,
Caernarfon.

£1.50: Mr a Mrs H. Roberts, 2 Tai
Plastirion, Llanrug.

(parhad ar dud 19)



Annwyl Olygydd,

Nid wyf yn cofio gweld y llun
amgaeedig yn yr Eco o gwbl.
Mae hwn o ddiddordeb arbennig
gan i'r Côr yma ennill ar y dydd
yn yr Eisteddfod Genedlaethol, y
Fflint ym 1969. Tynnais y llun
gyda i'r genod ddod allan ar ôl y
gystadleuaeth. Hefyd credaf i'r
chwalu ar ôl y diwrnod yma, ac yr
oedd yr arweinydd (merch o
Benrhyndeudraeth) ymadael.

Dichon nad yw rhai o'r genod
yma yn famau bellach. Fel
'Champions' Cymru 1969 credaf
y dylau'r llun ymddangos yn yr
Eco.

Yn gywir,

Jim Parry,
(Cyn-swyddog y Frigidân yng
Nghaernarfon)
Hyfrydle
Lôn Parc
Caernarfon.

TRIP CYMDEITHAS HANES BRO 'ECO'R WYDDFA'

Cafwyd trip llwyddiannus iawn gan Gymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa ar nos Fercher, Mehefin 19, gyda chant ac un o aelodau a chyfeillion yn bresennol.

Galwyd gyntaf yn eglwys hardd a hynafol Clynnog Fawr lle cafwyd sgwrs fer gan Gareth Haulfryn Williams, Dirprwy Archifydd Gwynedd, yn absenoldeb anorod y rheithor, y Parch Idris Tomos. Eglurodd bwysigrwydd Clynnog fel man aros i bererindotwyr ar eu ffordd i Ynys Enlli, mewn cynnod pan oedd tair pererindod i Enlli yn gyfwerth ag un daith i Rufain. Cyfeiriodd at nodweddion amlycaf yr adeilad presennol sy'n dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg. Un ffaith hynod oedd fod yno 'Rinws' lle cloid meddwon a drwgweithredwyd eraill ar nos Sadwrn i sobri erbyn y Sul! Yna cafodd yr aelodau hanner awr i flasau'r awyrgylch wrth grwydro oddi amgylch ar eu liwt eu hunain. Bydd llawer yn dychwelyd eto gan gymaint y pleser a gafwyd.

Yna ymlaen i Ganolfan newydd Trefor, lle croesawyd y fintai gan brifathro egniol y pentref, Geraint Jones. Dywed ef fod ganddo chwe awr o sgwrs a sleidiau ar hanes y fro a chymaint oedd mwynhad yr aelodau wrth wrando ar yr awr a gafwyd, buasai ambell un wedi aros am y pum awr arall hefyd! Trefor heddiw yw'r pentref Cymreiciaf yng Ngwynedd gyda 94% o'r trigolion yn siarad yr iaith. Yn wir mae'r unig gapel Saesneg newydd gau oherwydd diffyg cefnogaeth.

Roedd y chwarael a Threfor yn gyfystyr ar un adeg - y naill ydoedd y llall efo'r tai a'r ysgol yn eiddo i'r Cwmni a ohob stryd a llanc yn cario enw pwysigion y chwarael a'u teuluoedd. "Setiau" neu flocliau sgwâr o garreg Trefor a ddefnyddiwyd i balmantu sawl stryd enwog fel Lime Street, Lerpwl, am ei bod yn garreg galed a da rhag peri llithro. Yn anterth y chwarael roedd pedair stemar y dydd yn gadael y cei, dwy ar bob llanw. Cafwyd cip hefyd ar ferw diwylliannol y pentref wrth i Geraint Jones olrhain hanes y band, y capeli a chymdeithasau eraill lu sy'n nodweddu'r gymdeithas glos hon wrth odre'r Eifl. Yn wir eu cyd-ernes a'u cyd-ddyheu a gododd y Ganolfan yr eisteddem ynddi yn gwrando ar y darlithydd difyr (a oedd rhy wylaidd i nodi ei fod ef ei hun yn flaenllaw iawn ym mharhad y 'pethe' yn y pentref.



Aelodau'r Gymdeithas yn llenwi Eglwys Clynnog - ac yn disgwyl yn eiddgar am sgwrs gan Mr Gareth Heulfryn Williams ar hanes yr eglwys.

Diweddwyd y noson ym Mhlas Tan Dinas gyda chyw iâr a sglodion. Cafwyd raffl fechan ac enillwyd Tocyn Llyfr gwerth £5 gan Bethan Evans, Tŷ Crwn, Llanberis, a photel o sieri (a gyflwynwyd gan y gwesty) gan Beth Jones, Dolwen, Llanrug. Credir fod pawb wedi dychwelyd adre'n saff!

x x x

Dros ddeufis yr haf gobeithir y bydd aelodau'r Gymdeithas ym mhob pentref yn trefnu eu gweithgareddau hanesyddol eu hunain. Gall y rhain amrywio o deithiau cerdded (i blant a neu oedolion) i gofnodi mynwentydd, i gasglu atgofion neu hyd yn oed hel aelodau ar gyfer y gaeaf. Cewch syniadau gan yr aelod o Bwyllgor y Gymdeithas sy'n byw yn eich pentref. Cysylltwch efo fo neu hi a gwyliwch am bosteri'n lleol gan na fydd rhifyn arall o Eco'r Wyddfa tan ddechrau mis Medi. Y cyfarfod ffurfiol nesaf fydd darlith gan Mr Hywel Teifi Edwards ar nos Fercher, 18 Medi yn Y Ganolfan, Y Waunfawr. R.J.

CEUNANT

BEDYDD: Prynhawn Sul, Mehefin 2 bedyddiwyd Paul Glyn, mab bychan Sandra a Glyn Jones, Penhafodlas a David Gwynn, mab bychan Pauline a Gwynn Jones, Bryn Du, Groeslon gan y Gweinidog, y Parch John Morris.

LLONGYFARCHIADAU: i Eirlys Jones, Y Garth ar ei phenodiad yn ddirprwy-brifathrawes yn ysgol Nant y Coed, Cyffordd Llandudno.



LLYFRAU NEWYDD

Daeth dau lyfr i law oddi wrth Cyhoeddiadau Mei, Penygroes, wedi eu hargraffu yn ystod mis Mehefin.

Atgofion am Lanfachreth, Mary Corbett Harris, Prîs £1.70.

Llyfr 'bro' am ardal Lanfachreth gan un a fagwyd yn ferch i berson y plwyf yno. Daeth ei theulu, oedd yn ddi-Gymraeg i fyw i ardal drwyadl Gymraeg. Felly, yn y llyfr hwn ceir golwg wahanol i'r hyn a geir mewn amryw o'r llyfrau bro a gyhoeddwyd eisoes - sef cip o'r tu allan ar y gymdeithas wledig Gymraeg yn hanner cyntaf y ganrif hon.

Cyfaredd Gwauncwmbwynog, Catrin Piri Huws, Prîs £1.15.

Llyfr 'bro' arall - o ddiddordeb arbennig i ni yn yr ardal hon. Cyfrol ddifyr gan awdures Sul, Gwyl a Gwaith - sy'n darlunio'r gymdogaeth arbennig honno a fodolai ar lethrau'r Wyddfa, uwchben pentref Llanberis. Seiliwyd

nifer o'r hanesion a geir ynddi ar lyfr Evan Owen, Waunfawr Fy Hanes Fy Hun. Cawn ein tywys mor bell â Thremadog a Bangor drwy ddilyn ei deithiau.

DRAENOG



Disgwylir toreth o feirdd i roi cynnig ar ennill Cadair Eisteddfod Gwaun Gynfi eleni. Maent yn cynnig gwobr o fodel o gadair ac ugain ceiniog!

GWYNETH ROBERTS

(Siop E. Wilson Hughes gynt)

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

CREFFT·ELIDIR



STRYD FAWR, DEINIOLLEN Ffôn Llanberis 871210

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol** eraill: crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.

HEFYD YN SIOP

FFYN A CHERRIG

STRYD FAWR, LLANBERIS

LLANBERIS

Gohebydd: Mrs Jane Roberts, 'Rallt Isaf, Ffordd Capel Coch, (Llanberis 871561)

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan Mai 30, dan arweiniad Mrs Hannah Jones. Cafwyd noson ddifyr iawn ymysg ein gilydd, yn gweu sgwariau i Blas Pengwaith.

Y gwestwagedd am y noson oedd Mrs Eirlys Jones, Mrs Megan Hughes, Mrs C.M. Jones a Miss Kathleen Pritchard. Diolchwyd iddynt gan Mrs Hannah Jones. Enillydd y raffl oedd Mrs Glenys Jones.



DARLLEN YR ECO YN YNYSOEDD Y MALFINAS:

Dyma lun Mr Wilfred Hughes a Mr Idwal Roberts yn derbyn yr 'Eco' yn y Malfinas. Roeddent yn ei ddarllen o glawr i glawr bob mis, a mawr oedd y dyheu amdano. Erbyn hyn mae Wilfred wedi dychwelyd gartref ond bydd yn ychydig hwy ar Idwal cyn y daw i'n plith unwaith eto.

Hwyl fawr ar y darllen Idwal, mae ein cofion yn lledaenu dros fôr yr lwerydd i ben draw'r byd atat. Cofia lapio'n gynnes yn ystod tywydd oer y gaef yma.

APÊL CAE CHWARAE I'R PENTREF: Fel y mae amryw ohonoch yn gwybod mae Pwyllgor y Clwb Pêl-droed wedi mynd ymlaen i brynu'r cae mae'r tîm wedi chwarae arno am flynyddoedd maith bellach ac mae'r Pwyllgor Cymuned hefyd yn cefnogi'r fenter.

Y teimlad oedd fod tir addas i gae chwarae yn brin yn y pentref a phan ddaeth y cyfle yma roedd yn hanfodol i'w brynu er sicrhau y bydd yna gae yn y dyfodol i'w ddefnyddio ar gyfer chwaraeon.

Os oes rhywun yn teimlo y carai gyfrannu tuag at y fenter yma fe fydd aelodau o'r pwyllgor yn barod a diolchgar o dderbyn eich rhodd - hefyd y mae cyfrif ym Manc y Midland, Stryd Fawr ar gyfer hyn -

Clwb Pêl-droed Llanberis - Cyfrif Cae.

Bydd Cyfarfod Blynnyddol y Clwb yn Angorfa am 8 o'r gloch nos Fawrth, Gorffennaf 9. Gwnawn apêl am wynebaw newydd, hen ac ifanc.

ORIEL ERYRI: Mae'r Oriel ar agor yn awr tan ddiwedd mis Medi. Mae croeso i bawb fynd yno i fwynhau'r amrywiol arddangosfeydd.

DYWEDDIO: Llongyfarchiadau i Carol Wyn Jones, 27 Dôl Elidir ar ei dyweddïad â Michael Jones o Ddeiniolen.

DIOLCHIADAU: Dymuna Mr Derek Jones, 20 Stryd yr Wyddfa ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ato tra'n Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

Dymuna Judith Wyn, Dakota ddiolch o galon i'w pherthnasau a'i ffrindiau am y llu cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Mrs G. Jones, 4 Ffordd Padarn ddiolch yn fawr iawn am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati pan oedd yn wael ei hiechyd yn ddiweddar.

ACHUB BYWYD: Dyna a wnaeth dau o fechgyn ifanc y pentref pnawn Sadwrn, Mehefin 8. Deillir fod Richard Parry, Rose Cottage a David Griffiths, Dolafon, ar ôl cryn drafferth, wedi achub bywyd Mr Anthony Feaver o Gwm-y-glo. Canmolwyd dewrder y bechgyn gan yr Heddlu. Da iawn fechgyn.

YN YR YSBYTY: Yn ôl yn yr ysbyty mae Mr Gartside, ein fferylllydd lleol. Yn Ysbyty Gwynedd mae Mr Gareth Jones, Llainwen. Ein dymuniadau gorau iddynt ac i bawb sy'n wael eu hiechyd boed yn yr ysbyty neu gartref.

ADREF O'R YSBYTY: Da yw deall fod y canlynol wedi dychwelyd gartref o'r ysbyty - lestin, mab bychan Ann a Derlwyn Jones, 46 Dôl Elidir. Mr Ted Toleman, 10 Maes Padarn. Mrs Helen Jones, 5 Maes Padarn. Ein dymuniad yw ichwi gael llwyr wellhad.

DOD I OED: Llongyfarchiadau i Terence Griffith, 7 Llainwen Isaf ar ddathlu ei ben-blwydd yn 21ain ar Fehefin 17.

CARNIFAL:

Enillwyr yr Helfa Drysor ar Droed a gynhaliwyd ar ddydd Sadwrn, Mehefin 8 oedd:

Ysgol Dolbadarn - Angela Williams a Toni Owen.

Ysgol Brynrefail - Nia Roberts a Lisa Rudkin.

Gwobr Arbennig - Gillian Jones.

Dymuna Pwyllgor y Carnifal ddiolch i'r plant a gymerodd rhan.

CARNIFAL LLANBERIS GORFFENNAF 24, 1949



Ydach chi'n adnabod y tri yma? Wel, llun Liz Hughes yn 11 oed, Griff yn 8 oed ac Eluned yn 4 oed. Daeth y tri yn fuddugol yn eu dosbarth yn Carnifal '49. Dipyn o gamp yn te, achos brawd a dwy chwaer ydynt. Roeddent yn arfer byw yn 7 Stryd Siarlot yr adeg hynny ond y tri wedi priodi ac yn byw ar wasgar erbyn hyn.

PLANT YSGOL DOLBADARN - PAPURAU



Dyma lun rhai o blant Ysgol Dolbadarn yn eistedd ar fynydd o bapurau newydd a chylchgronau yn hen festri Gorffwysfa. Casglwyd dwy dunnell a hanner yn barod a'r plant yn cael hwyl wrth fynd ati yn casglu. Clywais am un tad ar ganol gwneud sment yn troi i nôl ei ferfa, ond roedd wedi diflannu. Ni welodd y ferfa am oddeutu dwy i dair awr yn ddiweddarach. Roedd y mab, Eilian, wedi ei benthycu i gario papur, ond chwarae teg roedd wedi rhoi bag bin rhag i'r sment fynd ar y papurau.

Os y bydd yn glawio, nid yw'r plant i fynd i gasglu, felly peidiwch â thafu eich papurau, cadwch nhw nes fydd y tywydd wedi gwella, daw rhywun i'w nhôl bryd hynny.

Deallwn fod rhai heb weld yr un casglwr eto. Os nad oes plentyn yn byw yn eich ymyl, ceisiwch roi'r neges i Miss Marion Davies (871267) neu Mrs Jane Roberts (871561). Diolch yn fawr iawn ichwi am eich cefnogaeth ac yn arbennig i'r plant.

YSGOL DOLBADARN: Llongyfarchiadau i Lyn Davies, Tyddyn Eilian, am ennill gwobr a roddir yn flynyddol gan Mr Selwyn Griffith, prifathro Ysgol Rhiwlas. Rhoddir tocyn llyfr i'r disgybl o Safon 4 sydd wedi gwneud y cynnydd

amlycaf yn yr iaith Gymraeg. Da iawn Lyn.

Ar ddechrau'r mis aeth yr adran lau i gae pêl-droed Llanberis i gynnal mabolgampau blynnyddol yr ysgol. Cawsant ddiwrnod heulog poeth braf

M. ROWLANDS MONUMENTAL MASONS

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2898

(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)

Crefftwaith llaw, e.e., Old English/Gothic gan un â thros 32 o flynyddoedd o brofiad

Cerrig newydd a gwaith adnewyddu:
dim ots pa mor bell

Stoc helaeth o'r cerrig gorau:
dyfynbris am ddim

AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

AM FFENESTRI DRYSAU GRISIAU

neu unrhyw fath o gynnyrch coed ffoniwch

BRYN

LLANBERIS 870793

B & K WILLIAMS
TANRALLT
CWM-Y-GLO

ac yr oedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn. Bu'r tri tŷ, sef Padarn, Peris a Seiont yn cystadlu'n frwd ac ar ddiwedd y dydd Padarn a orfu gyda 92 o farciau.

Balch ydym o ddeall fod y prifathro, Mr John H. Hughes yn gwella ac yn cryfhau bob dydd, ac yn cael nerth i fynd allan i gael sgwrs gyda hwn a'r llall yn y pentref pan mae'r tywydd yn ffafriol. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddo.

YR YMGYRCH LYFRAU: Llongyfarchiadau i Aled Hughes, Safon 3. Cyflwynwyd tocyn llyfr iddo am werthu'r mwyaf o lyfrau yn yr Ymgyrch Lyfrau.

Dymuna'r Prifathro a'r Staff bob bendith i blant Safon 4 sy'n gadael yr ysgol eleni i fynd i'r Ysgol Uwchradd. Gobeithir y cânt yrfa addysgol hapus

Cofiwch am y carnifal ar Orffennaf 20ed. Gobeithio fod pawb wrthi'n brysur yn paratoi gwisgoedd ac ati fel y cawn ddiwrnod llwyddiannus, llawn hwyl.



PARSELI O AWSTRALIA:

Diwrnod arbennig yn yr ysgol oedd hwnnw pan gyrraeddodd llond lori o barseli o Awstralia. Roedd y Rhyfel trosodd ond tynn oedd y boced o hyd, ffrwythau, nwyddau a da-da yn brin. Drwy garedigrwydd pobl yn Awstralia, derbyniodd pob plentyn yn Ysgol Dolbadarn un o'r parseli gwerthfawr yma oedd yn cynnwys

ac adeiladol iawn.

Bu aelodau'r Urdd gyda Mr Teifion Thomas yn ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon ym Mabolgampau'r Urdd ddydd lau, Mehefin 13. Er nad oedd y tywydd yr hyn y dylasai fod ar achlysur fel hyn, serch hynny cafwyd cystadlu brwd ymysg yr ysgolion. Dyma'r buddugwyr o Ysgol Dolbadarn: Annette Sellars, Linda Prydderch, Cai Williams, Geraint Prydderch, Deian Owen, Catherine Walker, Iestyn Pritchard, Sandra Nisbett, Shane Price.

Ar Orffennaf 16 bydd Mrs C.J. Roberts yn ffarfelio â ni wedi chwe blynedd o wasanaeth yn adran y Babanod. Diolchwn iddi a dymunwn bob bendith iddi hi a'i theulu yn y dyfodol.

LLONGYFARCHIADAU: i Dewi Jones, Balaclava ar ei lwyddiant yn Ysgol Treborth, Bangor. Daeth yn gyntaf am ganu ac adrodd, ail gyda llawysgrifen a thrydydd am ysgrifennu stori.

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL UWCHRADD BRYNREFAIL

BUDDUGOL

YMWELIAD Â THEATR CLWYD: Nos lau, Mehefin 20 aeth pedair o enethod o'r chweched dosbarth sef Delyth Huws, Helen Jones, Susan Jones ac Einir Parri i gynrychioli'r ysgol mewn dadl ar heddwch ac arfogi yn Theatr Clwyd, yr Wyddgrug. Darlledwyd y ddadl ar S4C ar y rhaglen 'Heno, Heno' ar Fehefin 21. Deallwn iddynt fwynhau eu hunain!

CYMDEITHAS WYDDONOL: Bu Dewi Lewis, disgybl o'r chweched dosbarth yng nghynhadledd y Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol ym Mangor ar ysgoloriaeth gan y Gymdeithas.

GWERSYLOEDD YR URDD: Bydd 16 o ddisgyblion yr ysgol yn mynychu gwrsyll yr Urdd yn Llangrannog yn ystod gwyliau'r haf. Hefyd bydd rhai yn mynd i wersyll Glan-Ilyn. Gobeithio y gwnewch chwi fwynhau eich hunain.

ATHLETAU: Dewiswyd deg o ddisgyblion yr ysgol i gystadlu ym mhencampwriaeth Ysgolion Gwynedd ym Mangor ar Fehefin 22. Fe fydd y canlyniadau yn rhifyn nesa' o'r Eco.

CRICED: Fe chwaraeodd Dylan Jones (Penisarwaun), Neil Roberts (Brynrefail) a Dylan Roberts (Llanberis) i dîm Ysgolion Gwynedd dan 15eg oed yn erbyn Ysgolion Clwyd ar gae Bethesda. Fe enillodd Gwynedd yn weddol hawdd. Methodd Stuart Williams (Llanrug) capten tîm Gwynedd y gêm yma am ei fod wedi ei ddewis i chwarae ar yr un diwrnod mewn treial yn Aberhonddu i ddewis tîm Cymru.



EISTEDDFOD YR URDD: Da oedd clywed i Graham Williams o'r drydedd flwyddyn ddod yn fuddugol ar yr unawd offeryn pres dan 15. Hyfforddwyd Graham gan Mr Dennis Williams a chyfeiliwyd iddo yn yr Eisteddfod gan Mrs Megan Roberts. Dymunir pob llwyddiant iddo yn y dyfodol.

Hefyd daeth parti adrodd i gyfeiliant dan 25 yn ail. Y darn oedd 'Detholiad o'r Ffynhonnau' gan Rhydwen Williams. Hyfforddwyd y parti gan Mrs Esyllt Morris Jones, ac yn cyfeilio roedd Mrs Mair Thomas Evans sydd yn gweithio gyda Theatr Mewn Addysg. Bydd aelodau o'r parti yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Rhyl. Dymunwn bob llwyddiant iddynt.

Padarn Lake Hotel

Perchnogion
Terry a Val Skilki

**STRYD FAWR
LLANBERIS
870260**

- Beth am bryd o fwyd yn ein Bar Lolfa newydd, hardd a chyfforddus, sydd ar agor amser cinio a fin nos, saith diwrnod yr wythnos.
- Yn ein ystafell fwyta hefyd cewch ddewis rhagorol o brydau Table d'Hôte ac À la Carte. Croesewir plant.
- Mae ein lloffttydd newydd gael eu hadnewyddu'n foethus, llawer gyda bathrwm, teledu lliw ac offer gwneud te a choffi. Gellir gweld y llyn neu'r mynyddoedd o'r rhan fwyaf ohonynt.
- Ceir adloniant yn ein Bar Lolfa bob nos Sul, yn aml yn cynnwys talentau Cymraeg lleol.



BRYNREFAIL

Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)

SEFYDLIAD Y MERCHED: Yng nghyfarfod y mis yn yr ysgoldy, cafwyd cwmni Siân Davies yn arwain trafodaeth ar Gadw Cymru'n Daclus. Rhoddwyd anrheg y mis gan Mair Williams ac fe'i enillwyd gan Mrs Hasson. Jennie Hughes a Jennie Williams a fu'n gyfrifol am y lluniaueth.

Mae aelodau cangen Brynrefail wedi bod yn brysur yn ymarfer eu dawnsio gwerin ac eisoes wedi cymryd rhan mewn 'Dydd Rhyngwladol' yng nghanolfan Aberconwy. Fe fyddant yn cyflwyno arddangosfa o ddawnsio gwerin ym Mhenygroes ar Fehefin 28.

CLWB Y MAMAU: Eto yn yr ysgoldy, cafwyd arddangosfa o sut i wneud a gwnio sgert gan Mrs Pat Jones, Cae Coch. Darparwyd y te gan Moira Ellis a Jackie Jones. Cyflwynwyd anrheg y mis gan Helen ac fe'i enillwyd gan Rhian Jones.

PRIODAS: Fore Sadwrn, Mai 11 yn Eglwys St Helen Caernarfon, priodwyd Ifor, mab Mrs Megan Jones a'r diweddar Mr David Jones, Greuor Villa, a Caroline Ann Roberts,

merch Mr a Mrs R.C. Roberts, 23 Maes Heulog, Caernarfon. Gwasanaethwyd gan y Tad McNamara. Cafwyd y wledd briodas yng Ngwesty Plas Tan Dinas, Dinas Dinlle, a chyda'r nos daeth nifer o'u cyfeillion yno i ddisgo. Maent wedi cartrefu yn Stryd William, Caernarfon. Dymunir pob bendith i'r ddau yn eu bywyd priodasol.

DIOLCH: Dymuna Caroline ac Ifor ddiolch i bawb am yr anrhegion, arian, a llu cardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

DRAENOG



Da deall fod rhai o nyrsus y fro yn gwneud eu dyletswyddau'n gydwybodol iawn - ac yn chwarae'n tywod gyda rhai o'r cleifion.

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs J.E. Ellis, 8 Glanrafon (870733)

I NANT PERIS O SYDNEY, AWSTRALIA: Croeso mawr i Mrs Cynthia Minnock, ei gŵr David a'r mab Stuart.

Merch yw i Nellie a'r diweddar Hugh Alun Jones, Tan Merddyn, Ceunant, Llanrug. Ymfudodd y teulu i Awstralia, saith mlynedd ar hugain yn ôl a dyma'r tro cyntaf iddi ddod yn ôl. Dymunwn wyliau hapus iddynt.

BEDYDD: Dydd Sul, Mai 26 y Sulgwyn yn ystod gwasanaeth y pŵn yng nghapel Rehoboth bedyddiwyd Lowri, merch fach Rhiannon a Rhys Llewelyn, ac wyres Mr a Mrs G. Searell Jones, Gwynant. Gwasanaethwyd gan y Parch Trefor Lewis, y gweinidog.

Ar yr ail Sul o'r mis yn Eglwys Peris Sant bedyddiwyd mab bychan Mr a Mrs Davies, Llanberis, ŵyr i Mr a Mrs Gwyrfaï Thomas, Bodhyfryd gynt.

YMRYSON CŴN DEFAID NANT PERIS A'R CYLCH: Er gwaetha'r tywydd ac wedi ysbaïd o dros ddeng mlynedd ar hugain cafwyd Ymryson Cŵn Defaid llwyddiannus yng nghae Tŷ Coch, Nant Peris nos Wener, Mai 24 a Sadwrn, Mai 25. Credir mai yn 1954 y bu'r Ymryson diwethaf.

Nos Wener, cynhaliwyd cystadleuaeth i'r ardal ac roedd ugain allan o chwech ar hugain o'r cystadleuwyr o dan 25 oed. Dyma fenter newydd i'r ifanc ac roeddant yn llawn hwyl. Dydd Sadwrn cynhaliwyd y cystadlaethau agored a'r ail ddosbarth. O Glwyd ac o Wynedd y daeth y mwyafrif o'r cystadleuwyr ac ychydig o Ddyfed. Roedd Dai Jones (Siôn a Siân) ymhlith y cystadleuwyr o Ddyfed. Mr Robert Thomas, y darlledwr teledu, brodor o'r Nant, a fu ar y 'meic' fore Sadwrn a Michael Owen a gymerodd drosodd yn y prynhawn. Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth a gafwyd i'r fenter newydd a hyderir y gwelir hon yn gystadleuaeth flynyddol o hyn ymlaen.

Rhestr o'r enillwyr: Cystadleuaeth lleol: 1. Brian Owen, Nant Peris (Charlie y ci); 2. John Williams, Bethel (Jim); 3. John Closs, Llanberis (Dodds); 4. Alwyn Evans, Llanberis (Fly); 5. Alan Roberts, Llanberis (Cap); 6. John Pritchard, Nant Peris (Gwen); cyd. 7. John Morgan, Bethel (Sian); Stephen Williams' Bethel (Ben); John Ifor Griffiths, Treborth a Nant Peris (Shep).

Derbyniodd Mr Brian Owen ddwy gwpan i'w cadw am flyyddyn, cwpan Rheilffordd yr Wyddfa (i'r gorau o blwyf Llanberis, Llanrug, Llanddeiniolen a Llandinorwig) ynghyd â chwpan Gwesty Dolbadarn (i'r gorau o blwyf Llanberis). Cyflwynwyd Gweill Cneifio (Cwmni Youngs) i John Williams a 'Tankard' - Robin Williams, Crown Chemicals,

Llanbedrog i John Closs. Derbyniodd y buddugwyr eraill wobwr hefyd.

Dosbarth cyntaf:

1. W.D. Williams, Aberdaron (Juno); 2. Alan Jones, Pontllyfni (Lad); 3. J.G. Jones, Waunfawr (Bet); 4. G. Pritchard, Llangybi (Del); 5. J.R. Jones, Talysarn (Sam); 6. J.G. Jones, Waunfawr (Mari); 7. W.D. Williams, Aberdaron (Time); 8. Alan Jones, Pontllyfni (Roy); 9. Elfed Lewis, Llanfairfechan (Moss). Cyflwynwyd cwpan (i'w chadw am flyyddyn) gan y Brodyr Morris i Mr W.D. Williams.

Ail Ddosbarth:

1. J. Jones, Hen Golwyn (Kim); 2. G. Staples, Llanddona (Nel); 3. A. Roberts, Pentrefoelas (Glen); 4. Norman Davies, Ysbyty Ifan (Sheila); 5. J.R. Griffiths, Talysarn (Meg); 6. J.G. Jones, Waunfawr (Bet).

Cyflwynwyd cwpan Wavell Roberts, i Mr John Jones, i'w chadw am flyyddyn.

Enillydd Cwpan (i'w chadw am flyyddyn) F.M.C. (i'r cystadleuydd gorau dan 25 oed) Mr Huw Roberts, Bethel.

Enillwyr y raffl:

1. A. Birch, MANWEB, Caernarfon (Oen Cymreig); 2. M. Jones, 28 Stryd Newton, Llanberis (Porc); 3. A. Rowlands, Bangor (Rug); 4. M. Owen, Waunfawr (Whisci); 5. J.E. Williams, Caernarfon (Ffon Bugain); 6. G. Roberts, Llanrug (Lamp); 7. C. Thomas, Tŷ Croes (Cinio i ddau); 8. I. Jones, Llanberis (Ornament - ci defaid); 9. J. Cox, Minffordd, Bangor (Whisci); 10. Gwenno, Bangor (Tocyn Cig); 11. J. Rowlands,



Dyma lun o Cynthia ym 1954 pan yn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Llanrug yn gweithio gyda'i dosbarth ar gylchgrawn yr ysgol 'Y Garreg Las'. Yn sefyll o'r chwith i'r dde: Margaret Jean Owen; Gwyneth Jones; Gwynifer Williams; Carys Williams; Rene Morris; Mr Garrison Williams (athro); ?; Raymond Hughes; Gwynfor Jones. Yn eistedd: ?; Cynthia Jones.

Llun: 'Y Cymro', Gorffennaf 9, 1954.

Gorffennaf 26 am 6.30 o'r gloch. Estynnwn ein croeso dihaf arferol i gystadleuwyr, dawnswyr a thrigolion y fro i'n plith, ac apeliwn yn daer am unrhyw rodd, boed ariannol neu faterol, er sicrhau dyfodol a llwyddiant yr achlysur. Diolch yn fawr.

c.o. Ysbyty Bryn Seiont; (Gwin) Carys, c.o. Ysbyty Bryn Seiont; (Sieri) Gareth Roberts, Bangor; ('Milk Tray') Kelvin Houston, Brynrefail.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn ddiffuant i'r canlynol am anrhegion. Snowdon Hotel, Mr Eric Williams, Mr Jerry Wardle, Becws, Mrs Fowler, London Garage, Mrs Sylvia Williams

YR YSGOL GYNRADD: Mabolgampau'r Urdd: Bu nifer o aelodau Adran Urdd yr ysgol i lawr yng Nghaernarfon ym mabolgampau cylch Arfon yn ddiweddar. Cafwyd llawer o hwyl yn cystadlu ar gaeau Ysgol Syr Hugh Owen. Cafodd dau blentyn lwyddiant arbennig: daeth Kelvin Houston yn gyntaf yn y Naid Uchel a'r Naid Hir dan 12 oed, a Nicola ei chwaer yn drydydd yn y gystadleuaeth taflu pêl dan 10 oed.

Glan-llyn: Aeth deg o blant y dosbarthiadau hyn i dreulio bwrw Sul yng Ngwersyll yr Urdd yng Nglan-llyn gyda Mrs Howells a Mr Roberts. Daliodd y tywydd yn rhyfeddol a chafwyd amser arbennig o ddiffr yn ardal Penllyn.

AR WERTH

Carafan, lle cysgu i 8. Ffôn: Waunfawr 600.

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon, 872275.

PRIODAS: Ar Fehefin 15 yn Eglwys Llanedwen, Ynys Môn, a'r Rheithor yn gweinyddu, priodwyd Alwyn Lloyd, 16 Dôl Afon, mab Wilbert a Linor Hughes, â Jennifer Ann, merch Mr a Mrs E.B. Jones, Eithinog, Brynsiencyn. Cafwyd y wledd briodas yng ngwesty'r Castell, Bangor. Pob dymuniad gorau i'r par ifanc.

COFION: Anfonwn ein cofion a dymunwn wellhad buan i Mrs Annie Hughes, Bryn, a Mrs Williams, Fron Gader sydd heb fod yn dda'n ddiweddar.

PRIODAS: Llongyfarchiadau a phob dymuniad gorau i Dylan, mab Mr a Mrs Iorwerth Jones, Min y Don, a Catherine, merch Mr a Mrs H. West, Pant Gwyn, Ffordd Minffordd, Llanrug ar eu priodas yn Eglwys Llanbeblig, Caernarfon ar Fai 25ain. Bydd y par ifanc yn ymgartrefu ym Mrynrefail.

PEN-BLWYDD: Llongyfarchiadau i Llinos Roberts, Llwyn Coed Bach, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

Y CARNIFAL: Dyma weithgareddau'r wythnos yn dechrau Gorffennaf 8:

Nos Lun: Bingo: am 7 o'r gloch.

Nos Fawrth: Disgo'r Plant: am 6 o'r gloch.

Nos Fercher: Helfa Drysor: am 6.30 o'r gloch.

Nos Iau: Dartiau yng Ngwesty'r Wyddfa

Nos Wener: Chwaraeon am 6.30 o'r gloch Dydd Sadwrn - Y Carnifal - am ddau o'r gloch.

GWELLHAD BUAN: i Mr Ifor Roberts, 18 Dolafon sydd yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, hefyd Mr John Jones, 21 Dolafon sydd wedi dod adref o'r ysbyty.

DECHRAU CWRS: Llongyfarchiadau calonnog i Michael Roberts, 18 Dolafon ar gael ei dderbyn i Goleg Llandrillo i wneud cwrs 'Recreation and Leisure Studies' i ddechrau mis Medi.

BINGO: Fe gynhaliwyd noson lwyddiannus iawn o Bingo yn y Ganolfan ar nos Wener, Mehefin 7. Yr elw at dîm pêl-droed Cwm-y-glo.

Enillwyr y raffl oedd: (Hamper) Geraint Williams, c.o. Bob Parry; (Towel) Tom Owen, Maes Gerddi, Cwm-y-glo; (Tun 'Roses') Gwyneth Parry, Bethel; (Mygiau) Mair, c.o. Ysbyty Bryn Seiont; ('Vase') Eluned,

D. LL. OWEN


1 BRYN AFON
TERRACE,
LLANRUG

FFÔN
C'FON 76699

Cludo Llwythi
Bychan a Chlirio
Safleoedd
Llwythi 3 Tunnell
Hefyd Trin Gerddi a
Thorri Gwair

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR



Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)

GWLAU SENGL O £39 I FYNY
GWLAU DWBL O £75 I FYNY
DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
- ALLWCH CHI Fforddio Prynu o Batrymau?

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn

AR GAU
SUL,
MERCHER.

GWILYM O. ROBERTS

WEIRGLODD
GOCH

PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871407

DOSBARTHWR
LLEFRITH

Trwy ardal
ECO'R WYDDFA

Hefyd TATWS, WYAU
ac ati at eich drws

CYNNYRCH 'TALWRN Y BEIRDD' Tîm Llanrug

Tîm Llanrug yn erbyn Tîm Dinbych. Darlledwyd y rhaglen ddydd Mercher, Mai 22ain. Aelodau tîm Llanrug oedd: Mair Huws, Twrog Jones, Len Jones, Harri Jones, John Roberts a Dafydd Whiteside Thomas.

Cywydd Ymddiddan
Comiwnydd a Chyfalafwr

Comiwnydd:
Hafin' yw cyfalafiaeth,
Un yn gawr a'r lleill yn gaeth;
Ci a fwythig gi a gâst,
Heb 'rician - oll cyn brecwast.

Cyfalafwr:
Addo mae comiwnyddiaeth
Fel y lli o fêl a llaeth;
Rhag i minnau'r gymwynas
Codi mur i'm cadw mäs!
Del yw aur a doleri,
Deutsmarc nid Carl Marc i mi.

Comiwnydd:
Watcha boi, daw'r Ke Ji Bi -
Yn Seibiria syberi.

Cân rydd: Gefeilliaid
Gefeilliaid
Roedd Tomos Wyn Roberts a Richard ei frawd
Yn edrych yn berffaith - y ddau o'r un cnawd;
Ond yn ystod y geni aeth pethau'n go flêr
Rhoddwyd 'rhywbeth' i'r fam yn lle 'gas and air';
A'r 'rhywbeth' hwnnw a fu achos y strach
A 'ffeithiodd ar fywyd y ddau hogyn bach.

'Rôl dod â nhw adra, ac wrth newid eu clwt
Y sylwyd fod rhywbeth yn od 'n y ddau grwt;
'Roedd dadi'n dal Tomos ar draws ei lin
A lithrodd y bin drwy y clwt mewn i'w din;
Ond Richard a waeddodd mewn poen gan y pigyn
- A bu pethau o chwith wedi hyn ar y bechgyn.

Ar ôl tyfu yn llanciau a chael beic bob yr un
Cafodd Tom ddamwain egr - ond Dic dorrodd ei glun.
Tra 'roedd Dic yn ei wely hefo'r fflw a'r colic
'Roedd Tomos ei frawd yn llyncu'r holl ffisig.
Rhoes Richard ei fryd ar slashar o fodan
A rhoi pinsh i'w phen-ôl, ond Tom gafodd waldan;
A dyna paham y bu Tom yn hen lanc
A Richard i'w ganlyn, y ddau yn ddau granc.
Aeth Richard i yfed: rum, gin a tonic,
Ond 'roedd Tom yn T.T., ac yn alcoholic.
'Roedd pawb wedi mwyrddo gyda'r fath ffolineb:
Waeth ar bwy 'roedd y galw - y llall fyddai'n ateb.

Bu farw un 'twin' oherwydd rhyw salwch
A gafodd ei frawd; wel dyna annhegwch;
A'r geiriau canlynol sy' ar garreg ei fedd:
"Er cof am un annwyl sy'n gorffwys mewn hedd
Sef Tomos Wyn Roberts, neu Dic yn ei weryd,
Ni wyddom pa un - nes daw'r llall yma hefyd."

Pennill Dychan: Unrhyw fater arall
Unrhyw fater arall
Ym mhwyllgor sefydlu y Cread
Roedd y Rhaglen yn fanwl a maith,
Ond bu'r fotio'n unfrydol trwy'r amser
Nes cyrraedd at eitem saith;
A'r Cadeirydd wrthododd ei thrafod
Am ei fod wedi blino'n llwyr;
Ac ni chrewyd un mater arall
- roedd hi 'di mynd rhy hwyr.

Englyn: Dau a Dwy
Dwy "Bunny" a dau benwyn, - dau hendaidd
A dwy handi'n dilyn;
Dau yn dechrau: dwy'n dychryn;
Dwy ar ffo rhag dau ar ffyn.

Cywaith rhydd; Telyneg: Glaw

Gorweddian ar y tywod crasboeth
gan loddesta ar gymwynas yr haul
a chynnwys ein basgedi llawn.
Gwylain sy'n llywcio'n farus
weddillion y creision a chrystiau'r plant.
Yn sydyn, i'n Heden,
daw sarff o gawod
a'i phigiadau'n greulon ar gyrff cynnes.

Sgrealwn am ddrws rhyw siop
i gofleidio'n rhai bychain
a phwyntio at yr awyr las
tu ôl i'r cwmwl du.

Gorweddant ar y tywod crasboeth
yn crino fel eu crydau
dau ddidostur haul.
Cigfrain barus sy'n chwilio'r llwch,
fu gynt yn bridd,
am roynnau'r cardod.
Yn eu huffern araf
mae pigiadau'r arthail fel glaw di-baid
sy'n golchi'r hoes o'r cyrrf eiddil.

Ac yno, yn ffenest siop ein byd,
coffeidiant eu rhai bychain
gan chwilio'r awyr las am gwmwl du.

Englyn Cywaith: Darganfyddiad
Darganfyddiad
Be? Onid "Galileo"? - Yli, lol;
"Galilei...i" oedd o;
"Galilei"? "Galileo"?
O drat - mi 'dwi'n mynd am dro!

Pennill Ymson: Ci ar y mat
Ci ar y Mat
Caf heno fy nghyntun yn teimlo reit
'smyg',
A'm trwyn ar fy mhawen, yn suddo mewn
'rug'
O India, un drudfawr. A coeliwch chi fi -
Hyn yw paradwys fy mywyd fel corgi
Sy'n arfer tramwyo hyd lawntiau y plas
Yn gorffod byhafio a byth troi yn gas;
Rhaid gwrandao, swatio, dim cyfarth, dim llyfu
Na phen na phen ôl; a ch' i ddim chwynu
Ar Mami a Dadi na dim un o'r crach.
Rwy'n gwarchod yn ffyddlon y ddau
d'wysog bach.
A heno a'r diwrnod yn myned rhagddo
Rwy'n hel meddyliau, yn dyheu wrth
freuddwydio
Am ffeirio moethusrwydd y lawntiau a'r
plas
Am chwiban yr awel ac arall was.

Ateb llinell
Mae hiraeth fel miaren
Heno'n toi y fynwent hen.

Limrig
Wrth wrando ar bregeth yn Seion
Fe welwn fy hun ar lan afon;
Nid wrth yr loddodden
Ond ar lannau'r Ogwen
A'm gwialen yn gwegian gan samon.

Hir a thoddaid: Storm
Storm
Â phoer yr ewyn yng nghyffro'r awel,
Ynni y cefnfor fantella'r gorwel;
Oerwynt o'r dwyrain a'i ochain uchel
Yn rheibio y llanw fel ysbryd anwel.
Y môr a'i siant ym merw swel - a'r mellt
pell
Yn gwanu daeargell 'reigion dirgel.

Ateb llinell:
Oerach na thalp o garreg
Ydi hi, Magi wên deg.

TÎM 'TALWRN' Y DYFODOL?



Y GERDDORFA

Drysau'r neuadd oer di-llw yn agor
Gofalwr yn codi'r stondinau arian fel
milwyr syth
Cadeiriau mewn dau hanner cylch
Yn araf
Daw'r bobl i fewn gan gario
Bocsiau, ia bocsiau o bob siâp a lliw
Rhaid gyda bocsiau mawr
A rhai yn ddim mwy na phen inc
Pobl hefyd yn wahanol iawn
Rhaid yn fach, rhai yn fawr
Rhaid yn dew, rhai yn denau
Roedd swm fiola, drwm, cyrn, fflwrt
I gyd ar draws ei gilydd
Yn swmio yn ofnadwy i'm clustiau
Roedd bron fel cathod swmlyd ac annifyr
Yn mewian drwy'r adeg
Nid cerddoriaeth mo hyn!

Ond, daeth dyn i fewn
Moel fel swigen mochyn
Trwsus du a siaced digon taclus yr olwg a
wisgai
Roedd i'w weld yn ddigon tew
Cododd ei ddwylo
Distawrwydd llethol am ychydig
Aeth ei ddwylo rheolaidd
I lawr, i'r dde ac yna i'r chwith
Ac yna
CERDDORIAETH PUR.

SIAN WYN JONES

(Ail yng nghystadleuaeth barddoniaeth
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng
Nghaerdydd)

TAN-Y-COED

Nos Fawrth, Mai 28 cafwyd
cyfarfyddiad Chwiorydd Tan-y-coed
M.C. o dan lywyddiaeth Mrs Gillian
Morris.

Agorwyd y cyfarfod mewn
addoliad gan Mrs Morris, a dilynwyd
hyn gan sgwrs ar 'Adnabod' gan Mrs
Morris.

Yn dilyn mwynhawyd cwpaned o
de ac ymgom. Y gwestwagedd oedd
Mrs Iola Butler a Mrs Megan
Williams.

Croesawyd Mrs Morris, Mrs
Catherine Jones, Colwyn,
newydd-ddyfodiaid i'n plith, a Mrs
Mair Williams (ar ôl gwaeldd) hefyd
Mrs Megan Pritchard.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos
Fawrth, Mehefin 18. Bydd y cyfarfod
hwn yng ngofal Mrs Iola Butler. Ceir
manylion pellach yn rhifyn nesaf o'r
Eco.

Nos Fercher, Mehefin 8fed
cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi dan
nawdd Gofalaeth y Parch John
Morris, yn Nhan-y-coed.

Llywyddwyd gan y Parch John
Morris. Cymerwyd rhan yn y
gwasanaeth gan Mr Harry Jeffrey
Roberts a'r Parchn W.O. Roberts a
John Morris.

Mai 16 trefnwyd cludiad i Sasiwn
Chwiorydd y Gogledd i Ddolgelau,
gan eglwys cylich Deiniolen,
Penisrwaun, Llanberis a Llanrug.
Caed cynrychiolaeth o Dan-y-coed a
threuliwyd diwrnod bendithiol mewn
capel orlawn yn cyd-addoli mewn
mawl a chân, a gwrandao ar areithiau
grymus perthnasol i'n cyfnod ni
heddiw.

Dydd Sadwrn, Mehefin 15, bu
Cymdeithas Undebol Pontrhythallt ar
daith hanesyddol i Lanrwst a
Chonwy. Y gweinidog y Parch John
Morris drefnodd y daith, a chafwyd
diwrnod hapus iawn.

Llongyfarchiadau i Manon Llwyd
Evans, a Bethan Lewis Parry ar fod yn
y parti Côr Adrodd i gyfeiliant ddaeth
yn ail dan 25ain yn Eisteddfod yr
Urdd yng Nghaerdydd.

Yng nghanolfan yr Urdd yng
Nglan-llyn y treuliodd Aled Parry,
John Elwyn Jones a Mark Wyn Jones
y penwythnos Mehefin 14-16 a chael
amser da.

Llongyfarchiadau i John hefyd am
fod yn un yn y parti'on gafodd
gystadlu yn yr Eisteddfod yng
Nghaerdydd. Er na chafwyd gwobr,
cafodd y plant egwyl hapus yng
Nghaerdydd, a thaith ddifyr yn ôl ac
ymlaen i'r Brifddinas.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs Harry
Jeffrey Roberts, Tai Newyddion,
ddiolch i berthnasau a chyfeillion am
eu caredigrwydd ar achlysur priodas
eu merch, Janice â Raymond Smith.

STORFA

Mace

John a Roberta
Griffith
Sgwâr
Llanrug
Caernarfon 2790

Dewis hael o fwydydd,
llysiau a diodydd

Archebion at eich drws
Ffilmiau fideo £1 y noson

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL**

**GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF**

**ATGYWEIRIO TAI
GWAIR**

E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

DAMSANG Y CYMYL

Daeth i'm meddiant yn ddiweddar lyfryn sydd wedi cylchredeg am gyfnod. Ei enw yw: 'The Air War Over Gwynedd', ac y mae wedi'i gyhoeddi gan The Snowdonia Aviation Historical Group. Ynddo fe restrir, ynghyd â manylion, hanes y gweithgareddau a'r damweiniau a ddigwyddodd fel canlyniad i hedfan milwrol yn y rhanbarth yma yn ystod yr Ail Ryfel, ac enwau'r bechgyn a laddwyd ac a gafodd eu hanafu. Ac y maent yn lleng. Mae'r gwaith yn ei gryswth yn gwireddu'r dywediad; mai mynwent awyrennau yw'r Eryri.

Mae ei gynnwys yn arbennig o ddiddorol i mi, gan fod y rhan fwyaf o'r awyrennau a gollwyd yn gysylltiedig â gorsaf awyr Llandwrog, o'r fan y bûm yn ehedeg ar fwy nag un achlysur. Roeddwn yr adeg honno yn aelod o A.T.C. Llanrug, mudiad a oedd erbyn hynny yn cael ei dderbyn fel maes hyfforddi cynnar ar gyfer ymuno â'r Awyrlu yn nes ymlaen.

Roedd 'flight' Llanrug yn rhan o 'squadron thirteen ten', a oedd dan ofal S.L. C.C. Williams o Gaernarfon, ac yr oedd yr aelodaeth yn cynnwys nifer o fechgyn y fro yn eu harddegau. Roedd un neu ddau ohonom eisoes wedi cael ein derbyn fel 'aircrew' gan yr Awyrlu, ac yr oeddwn yn mentro gwisgo clwt gwyn yn ein capiau i brofi'r ffaith.

Roeddwn yn ymgynnull yn ysgol Llanrug, a deuai atom amrywiaeth o hyfforddwy'r Lluoedd a mannau eraill. Y mwyaf selog rwy'n cofio oedd Mr Owen Eryri Williams o Lanrug, a weithia'n ddiwyd i'n trwytho mewn 'morse', ac yr oedd gennym feddwl mawr ohono.

Roeddwn hefyd yn ymweld â gorsaf awyr Llandwrog, tros y Sul fel arfer, ac ar wersylloedd haf. Ysgol 'navigation' oedd hi yr adeg honno; pwnc â'm cyfaredodd yn llwyr, ac ar gyfer y gwaith hwnnw, yr awyrennau â ddefnyddid yn gyffredin oedd Avro Ansons. Roedd y rhain yn hen cyn dyfodiad y rhyfel, ac yn y dyddiau cynnar defnyddid hwy i ddwyn cyrchoedd ar Kiel a Heligoland, a chawsant eu medi fel petris. Pan ddaeth y Wellington i weithredu, cafodd Training Command yr Ansons fel cath mewn cwd. Roedd yna ddwsinau yn Llandwrog, ac yr oeddent yn yr awyr ddydd a nos.

Awyren ddau beiriant oedd yr Anson (Armstrong Siddley Cheetahs) yn gallu symud ar draws yr awyr ar y cyflymder syfrdanol o gant a phedwar ugain milltir yr awr - a thipyn mwy wrth blymio! Roedd yna fwrdd bychan i'r 'navigator' y tu ôl i'r peilot, a sedd yn y pen ôl i'r dyn radio, a oedd hefyd fel rheol yn 'air gunner', ac yn mynd i fyny i'r

'turret' at y 'machine gun' fel y byddai galw. At hwylustod pawb, roedd yna dwmffat anferth yn crogi wrth y drws.

Serch hynny roedd yr 'Annie' yn geit agos at rhywun. Roedd hi wedi gwasanaethu hefyd yn erbyn llongau tanfor hefo 'Coastal Command', ac os yr oedd hi'n dueddol o sgytiau fel gwŷdd y gwehydd hefo'r 'throttles' led y pen a bygwth syrthio'n ddarnau, roedd hi'n gartref oddi cartref i lawer ar y siwrneiau nos trionglog rheiny i Burton on Trent - Caerdydd - ac yn ôl.

Ond bu damweiniau erchyll, a rheiny nid i gyd yn y mynyddoedd. Lladdwyd tri llanc o'r A.T.C. ar un tarawiad un dydd o haf ar lan y Fenai, nepell o'r fan lle y cefais innau dianghof mewn Anson ychydig o ddyddiau ynghynt.

Roeddwn wedi mynd un gyda'r nos o haf hefo llanc arall a pheilot o'r enw Swanson R.C.A.F. i roi prawf ar beiriannau awyren cyn iddi gychwyn ar draws gwlad y noson honno. Roeddwn wedi codi'n rhwydd i gyfeiriad Caernarfon, ac wedi gallu weindio'r olwynion i mewn hefo'r handlan cyn iddynt ddechrau amharu ar ein cyflymder. Roedd y llanc arall yn y 'cockpit' hefo Swanson, a minnau y tu ôl wrth y bwrdd. O dan y 'turret' roedd y WOP.AG.

Rwy'n credu fod y peilot yr adeg honno wedi gwneud un 'tour' tros yr Almaen, ac wedi ei anfon i hyfforddi 'navigators'. Deallais ei fod yn dymuno mynd yn ei ôl ar 'squadron' lle y buasai'n gallu ail-afael yn y brawdgarwch hwnnw sydd yn ffynnu mewn perygl. Canfyddais wedyn y gall profiad felly fynd i'r gwaed fel alcohol. Rwy'n credu, os wy'n cofio fod gan Swanson ruban y D.F.C.

Ar ôl gwneud tro i ennill uchder dilynasom y Fenai rhwng y ddwy lan ar ôl cyrraedd tua phedair mil o droedfeddi. Roedd yr olygfa yn odidog. I'r dde, y ddau lyn a'r mynyddoedd, Sir Fôn ar ei hyd yr ochr arall, ac yn y pendraw, Manaw. O'n blaenau y Penmaen a'r Gogarth.

Amcan y peilot fe wyddwn oedd cyrchu Ynys Seiriol, troi, a dychwel tros Fôn i Landwrog, ond pan oeddwn ni rhwng y ddwy bont, sylwais ar rhyw ysmotiau mawr duon ar y ffenestr wrth fy mhenelin, ac wrth edrych allan, gwelais olew yn chwydu allan tros gowling y 'port engine' ac yn llof tros ymyl yr adain. Roedd peth ohono yn cael ei ddal yn y 'slipstream' ac yn chwipio yn erbyn y 'fuselage'.

Codais ar unwaith a'm ceg yn sych a rhoi pwniad yn ysgwydd y peilot a phwyntio. Trodd yntau yr awyren yn ei hól yn araf, ond bu raid iddo gau y 'port engine' yn llwyr rhag ofn iddi fynd ar dân, ac yr oedd yr Anson erbyn hyn yn tynnu'n groes ac yn cloffi a'r adain chwith ar ogwydd.

Roeddwn ni yn dal uwchben y dŵr, ac yr oedd y WOP.AG yn anfon negeseuau brys i'r tŵr yn Llandwrog. Daeth y llanc arall ataf a'i geg mor sych â f'un innau, a gwaeddodd yn fy nghlust fod y peilot wedi gorchymyn iddo roi ei barasiwt. Roeddwn ni'n cario'r rhain hefo ni mewn bagiau yn ein dwylo fel pobl yn mynd ar wyliau, ac yr oeddent yn cysylltu mewn dau fach oedd ar y webbing ar draws ein brestiau. Ond ychydig o gyfarwyddyd yr oeddwn ni wedi ei gael ar gyfer ei ddefnyddio. Roedd rhyw ringyll wedi dweud wrthym unwaith: "Ar ôl i chi neidio allan peidiwch â thynnu'r 'rip cord' ar ei union rhag ofn i chi fachu yng nghynffon yr awyren. Peth da yw gweiddi enw eich cariad ar ôl gadael yr awyren cyn cyffwrdd dim." Bûm yn dyfalu droen p'run ai Bet, neu Gwenhwyfar oedd yr hogan ddiogelaf i ymhél â hi.

Roeddwn i'n dal i rythu ar y peiriant clwyfedig fel pe bawn yn disgwyl gwaredigaeth o'r cyfeiriad hwnnw, ac yr oedd Swanson yn defnyddio pob darn oedd ganddo i'n cadw yn yr awyr, ac yr oeddwn yn disgwyl bob munud iddo roi arwydd i'r WOP.AG i agor y drws a rhoi sgwd i ni allan, ac rwy'n cofio meddwl, fel y bydd rhywun ar adegau tywyll, y buasai'n helynt pe bawn yn bachu ymhen Pont y Borth a chrogi yno am ddiwrnodiau. Ond erbyn hynny rodden ni wedi ei gadael hi yn rhy hwyr. Roeddwn ni'n colli uchder wrth y llat, ac erbyn i ni gyrraedd Môr Matholwch i gael ein tro i ddod i mewn, doedd gennym fawr i sbario. Ond i mewn y daethom drwy drwch asgell cacwn, a bu bron i ni ag anghofio gollwng yr olwynion. Roeddwn yn teimlo fel cofleidio Swanson, 'run fath â chwaraewyr pêl-droed ar ôl sgorio, ond buasai wedi ein damio rwy'n siŵr am ddod â 'jinx' i'w fywyd. Ar ddiwedd yr wythnos roeddwn yn ymadael i wneud lle i griw o hogiau bach o Wrecsam.

Ymhen tridiau roeddwn yn cario gwair hefo fy nhad ar y boncan. Roedd yna amryw o Ansons yn yr awyr fel arfer, a digwyddais am funud sylwi ar un yn y pellter dros Ddinas Dinorwig. Ar y foment honno, gwelais hi'n syrthio fel carreg i'r ddaear. Doedd yna ddim amser i neb ddod ohoni. Ynddi, erbyn

deall, yr oedd y tri llanc.

Ond wrth gwrs yr oedd rhai peilotiaid yn gofyn amdani drwy hedeg yn isel - 'hedge hopping' oedd y gair, ac yr oedd y corsydd lle roeddwn yn byw yn faes delfrydol i'r gêm. Gwelais aml un yn mynd ar draws yn prin glirio pennau'r eithin, ac yr oedd hi'n anodd gweithio hefo ceffylau ar y tir. Ond rhyfel yw rhyfel. Mae popeth o fewn y rheolau.

Mae D.E. Charlwood, gynt o'r R.A.A.F. yn ei lyfr 'No Moon Tonight' yn agor fel hyn:

As our plane pulled over a bare hill I saw ahead of us a shepherd driving sheep. He stared at the Anson in terror, then flung himself on his face ... the pilot laughed. "Where are we now navigator?" he asked.

I pointed to a village. "Corwen," I said.


"Wales is my native land," he announced ... over his pocket he wore the faded ribbon of a D.F.C. I thought that to be afraid was foolish. If this pilot didn't value my life, at least he valued his own.

But a week later he killed himself on a low-level cross-country flight in Wales."

Wrth ddarllen yr uchod cofiais am amgylchiad a ddigwyddodd i mi a dyn arall wrth groesi'r corsydd. Daeth awyren ar ein gwarthaf o Dduw a wyddai ble, fel barcud ar gyw. Roedd hi'n amlwg fod y dyn â'i fryd ar ein gwneud yn gig mân. Fel y bugail, taflasom ein hunain i'r hirwellt. Ond doedd hi ddim yn deg beio hogiau'r Ansons am bopeth. Blenheim oedd honno.

Dro'n ôl wrth rodio'r twynni ger Llandwrog gwelais deulu bach gobeithiol yn mynd i mewn i un o'r eroplens bach lastig rheiny sy'n cario pobl ddiwied am grobris i weld yr Wyddfa. Meddyliais tybed a fuasent lawn mor selog pe baent yn gwybod fod yna aneirif lanciau wedi codi i'r gwynt o'r un fan i gael cip ar yr un mynydd am y tro dwaetha.

John Williams
Allt Riwith
Pontrhyallt



Yr Awdur yng nghyfnod yr hanes uchod.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

**YSGOL YRRU
OFALUS**

- * Gwasanaeth 7 diwnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD

43 glanffynnon

LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

**E.W.Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis**

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

**Busnes newydd ym
Mro'r Eco...**

**EMYR
JONES**

PLYMAR
PEIRIANNYDD
GWRESOGI

GWAITH
INSIWLEIDDIO

44 Glanffynnon

LLANRUG

Caernarfon.

3513

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W.O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

Y SEINDORF: Enillwyr Clwb 200 am fis Mehefin: 1. £25, Mr R.A. Lewis, Waen-fon, Deiniolen; 2. £15, Mr H. Williams, Gerafon, Deiniolen; 3. Mr W.O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen.

YN GWELLA: Deallwn fod Miss Kathleen Jones, Prenteg yn gwella ar ôl bod yn Ysbyty Gwynedd yn dilyn damwain yn iard yr ysgol pan dorrodd ei choes.

MARW: Dydd Mawrth, Mai 21 bu farw Mrs Jane Evans, 27 Rhydfadog, priod Mr Thomas Evans (gynt 9 Glyndŵr Terrace). Bu'r angladd preifat yn y cartref 24 Mai a chyhoeddus ym mynwent Macpela. Ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu yn eu profedigaeth.

DIOLCH: Dymuna Mr Thomas Evans a Mary a Nan, 27 Rhydfadog ddiolch yn gynnes iawn i bawb am y cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt o golli priod, mam, a nain annwyl, Mrs Jane Evans. Diolch am yr holl gardiau a rhoddion. Hefyd diolch i weinyddesau Rhosgadfan a Deiniolen a'r meddygon, ac i'r Parch Trefor Lewis a'r Parch Aled Edwards.

Dymuna Mrs Nellie Hughes, Erv Fair ddiolch o galon i'r teulu a ffrindiau am eu caredigrwydd tuag ati tra bu'n Ysbyty Gwynedd. Diolch am yr holl gardiau, anrhegion a galwadau ffôn.

LLONGYFARCHIADAU: i Siân Wyn Gibson, 17 Hafod Oleu am fod yn llwyddiannus yn ei harholiad canu yng Ngholeg Cerdd Manceinion gyda gradd A1.

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau mawr i Alan Wyn Williams a Nora Ann Williams, Glyn Villa Clynnog Road, Penygroes ar enedigaeth eu mab, Iwan Wyn, yn Ysbyty Dewi Sant ym Mangor.

LLONGYFARCHIADAU: i Esther Ann a Bobb (Twins) am fod yn Nain a Taid i Iwan. Oddi wrth Alan a Nora.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fehefin 3 dan arweiniad y llywydd, Mrs Eirlys Lloyd Jones. Darllenodd Mrs Jones y llythyr misol a chroesawodd y wraig wadd sef Mrs Janet Hughes, i roi arddangosfa sut i gadw'n hardd, dan nawdd cwmni Debenhams, Bangor. Y modelau oedd Mrs Beti Williams, Mrs Gwen Hughes a Mrs Marian Williams. Bu Mrs Janet Hughes yn dangos sut i goluro gyda chymorth rhai o aelodau'r Sefydliad. Diolchwyd i Mrs Hughes gan Mrs Gwen Hughes.

Rhodddwyd y te gan Mrs Beryl Hughes a Mrs Marian Wyn Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs J. Eirlys Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar Orffennaf 1 pryd y disgwylir Miss Sydney Roberts, Caernarfon i ddangos sut i osod blodau.

CLWB ELIDIR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yn y Clinig, ddydd Mawrth Mehefin 18. Cafwyd sgwrs ddifyr gan ein llywydd, Mrs C. Marren ar hanes ei phlentynod a'i harddegau yn ei mamwlad, yr Ynys Werdd. Atebwyd aml i gwestiwn oedd yn ymwneud ag lwerddon, a mwynhawyd y sgwrsio yn fawr. Edrychwn ymlaen am ragor o'r hanes yn y cyfarfod nesaf.

Diolchwyd yn gynnes i'r siaradwr gan Mrs Ellen Williams. Rhodddwyd y te gan Mrs Marren, Mrs Mary Thomas, Mrs Katie Griffith a Mrs Elsie Davies. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Mrs Mary Thomas, gan Mrs Jane Jones. Gan inni gynnal noson goffi nos Fercher, Mehefin 5, diolchwyd yn gynnes i bawb a fu'n

gweithio ac a gyfrannodd tuag at yr achlysur. Dymunwn drwy hyn ddiolch yn arbennig i'r ardalwyr fu'n ein cefnogi, a chyfrannu yn hael at y cyllid.

Bydd y wibdaith flynyddol yn mynd i Landudno a'r Rhyll ddydd lau, Gorffennaf 18 i gychwyn o Ddinorwig am 9.45 a Deiniolen am 10.00 o'r gloch.

Dymunwyd adferiad buan i Mrs Blodwen Parry a Miss Kathleen Jones a fu'n Ysbyty Gwynedd. Estynnwyd cydymdeimlad â Mrs Gracie Williams, Llys Fryn ar farwolaeth ei phriod, a chofiw'n at y rhai sy'n cwyno. Bydd y cyfarfod nesaf ar Gorffennaf 2.

Y SEINDORF: Mae blwyddyn canmlwyddiant a hanner y seindorf wedi bod yn un brysur hyd yma. Nos Sadwrn, 15 Mehefin, cynhaliwyd cinio swyddogol y seindorf yng Ngwesty'r Anglesey Arms ym Mhorthaethwy. Cafwyd adloniant gan Deulu Hafod y Gân o Bwll-glas, Rhuthun. Yna, Mehefin 19, bu'r seindorf yn diddanu gwahoddedigion yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor, coleg sydd yn gan mlwydd oed eleni.

Cymerir rhan mewn dau gyngerdd ym mis Gorffennaf, ac yna ar Awst 3 bydd y seindorf yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Rhyll, dan arweiniad Mr Nicholas Childs.

John Emrys Morris



**BAND
DEINIOLEN
1835-1985**

Ychydig iawn o gopiâu o lyfr Mr John Emrys Morris, llyfr sy'n olrhain hanes y seindorf, sydd ar ôl. Mynnwch gopi gan un o aelodau'r band: hwyrach y bydd yn brin rhyw ddiwrnod!

Mae darn o lechen wedi'i fframio ar werth hefyd. Mae 'logo' y band ar y llechen, ac mae'n costio £1.50.

PLAID CYMRU: Cyfarfu pwyllgor y gangen yn y Ganolfan ar 8 Mehefin. Dywedwyd fod y daith ddigel, a gynhaliwyd ar Fehefin 1 wedi bod yn llwyddiannus iawn. Cafwyd adroddiad manwl am gynhadledd etholaeth Arfon, a gynhaliwyd yng Nghaernarfon yn ddiweddar.

Cynhelir yr helfa drysor flynyddol ar 13 Gorffennaf: dylai'r sawl sydd am gymryd rhan roi ei enw naill ai i Mr Dafydd Wyn Williams neu i Mr Gwyn Parry.

PRYSURDEB ANNETTE: Ddydd Llun, 17 Mehefin, teithiodd Mrs Annette Bryn Parri, Cynefin, i Lundain i gymryd rhan yn rhaglen 'fyw' Terry Wogan. Gwahodddwyd Annette i gyfeilio i Aled Jones o Landegfan. Profiad go arbennig oedd cyfarfod 'Claudia' (o raglen 'Dynasty'), John a Chris Lloyd, a Ken Livingstone - a Wogan ei hun wrth gwrs.

Y bore canlynol, aeth Aled ac Annette i dŷ Andrew Lloyd Webber i Mayfair, lle'r oedd Aled yn gorfod canu un o ganeuon y cyfansoddwr.

Cyfeilio yn yr Eisteddfod

Genedlaethol yn y Rhyll fydd y dasg nesaf y bydd Annette yn ymgymryd â hi. Yna, ym mis Medi, bydd yn chwarae piano ar y QE2 yn ystod mordaith o Southampton i Portiwgal, a fydd yn parhau pum niwrnod.

DIOLCH: Dymuna Evan Bryn, Annette, Olwen a Marina ddiolch yn fawr i gynifer o bobl leol sydd wedi prynu eu caset sy'n dwyn y teitl 'Tulu Tŷ'r Ysgol', a wnaethant yn ddiweddar.

MARWOLAETH: Ddydd Llun, Mehefin 10 ym Mhlas Pengwaith, Llanberis bu farw Elizabeth E. Ellis, gweddw'r diweddar R. Ellis, Gallt-y-foel. Roedd Mrs Ellis yn 97 oed. Cydymdeimlir yn fawr â'r teulu yn eu profedigaeth.

DIOLCH: Dymuna Mrs B. Parry, 6 Bro Deiniol ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am bob caredigrwydd, cardiau ac anrhegion a gafodd tra bu yn yr ysbyty. Diolch hefyd i feddygon a gweinyddesau Ysbyty Gwynedd, Bangor.

Dymuna Mrs Catherine Jane Jones, 33 Hafod Oleu, ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl caredigrwydd, cardiau, blodau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra'n Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch yn arbennig i feddygon a staff Ward Hebog am eu gofal tyner a hefyd diolch i'r Parch Ifor Lloyd Williams y gweinidog.

YSGOL FEITHRIN: Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol yr Ysgol Feithrin yn ddiweddar. Etholwyd pwyllgor

newydd: Cadeirydd: Mrs N.E. Jones, Ysgrifennydd, Mrs C. Arnold, Trysorydd, Mrs E. Hughes, Aelodau eraill, Mrs J. Keller, Mrs V. Williams, Mrs E. Williams, Mrs B. Clare, Mrs S. Skillicorn.

Dymuna'r athrawon ddiolch i'r hen bwyllgor am ei gwaith a chefnogaeth.

GŴYL FEITHRIN: Er mwyn codi arian at wella'r adeilad sydd bellach mewn gwir angen côd newydd o baent cynhelir wythnos o weithgareddau fel â ganlyn:

Pnawn Sul, Gorffennaf 7, Gwasanaeth i blant yr ardal dan ofal y Parch Trevor Lewis.

Nos Lun: Pronto yn yr Ysgol Feithrin. **Bore Mawrth:** Bore agored. Croeso i bawb.

Nos Fawrth: Disgo Cymraeg Awyr Agored, 6.30 o'r gloch yn yr Ysgol Feithrin.

Nos Fercher: Cyngerdd, gyda phlant yr Ysgol Feithrin, Plant Ysgol Gwaun Gynfi, Plant Ysgol Pendalar, Seindorf leuenctid Deiniolen.

Dydd lau: Trip yr Ysgol Feithrin i Lanberis. Hoffem estyn croeso i unrhyw fam a'i phlentyn ymuno â'r trip. Manylion yn yr Ysgol Feithrin.

Nos lau: Bullseye yn yr Ysgol Feithrin am 8.00 o'r gloch gyda lluniaeth ysgafn.

Nos Wener: Mabolgampau i blant dan 11 oed. Majorettes Deiniolen. Stondinau amrywiol i'r rhieni.

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cefnogi'r Ysgol Feithrin yn y gorffennol. Erfynnir ar bawb i gefnogi'r wythnos hon.

GWOBRAU YN Y GENEDLAETHOL



Dau o ddisgyblion ysgol Gwaungynfi, Sion Wyn (de) a ddaeth yn gydradd ail am ryddiaith 8-10 oed a Barry John Thomas a ddaeth yn gydradd drydydd yn yr un gystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd.

Cefnogwch ein Hysbysebwyrr



**BECWS
DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)


Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

ECO'R IFANC

Gwahanol ddulliau o ymgeisio am swyddi



FFONIO CYFLOGWR

Gofyn rhai cyflogwyr i chi gysylltu â hwy drwy gyfrwng y telifon.

Cyn ffonio – byddwch yn drefnus

Os byddwch yn ffonio o giosg gwnewch yn siŵr fod gennych ddigon o ddarnau 5c a 10c yn barod.

Ysgrifennwch enw'r person y dymunwch siarad ag ef ar ddarn o bapur a hefyd deitl y swydd rydych yn ymgeisio amdani. Gofalwch fod yr hysbyseb gennych wrth law.

Gwnewch nodyn o ychydig gwestiynau i'w gofyn am y swydd.

Cofiwch am bapur a phensel i sgwennu unrhyw nodiadau.

Gofalwch eich bod yn gwybod pryd y buasech ar gael i fynd am gyfweiliad, a gofynnwch am gyfeiriad y cwmni a sut i gyrraedd yno.

Pan ffoniwch

Rhodddwch eich enw gan ddweud eich rheswm dros ffonio.

Byddwch yn barod am gwestiynau ac atebwch hwy'r fyr.

Os nad ydych wedi clywed yn iawn beth a ddywedir wrthyfch y tro cyntaf, peidiwch â bod ofn gofyn iddyn' nhw ailadrodd.

YN BENNAF OLL

BYDDWCH YN NATURIOL, SIARADWCH YN EGLUR, BYDDWCH YN GWRTAIS A GWRANDEWCH YN OFALUS.

FFURFLENNI CAIS

Yn aml gall y rhain fod yn hir a chymhleth ac weithiau yn ddigon i chi roddi'r ffidil yn y to cyn dechrau. Mae'n hawdd iawn gwneud camgymeriadau a gall cywiro'r gwaith edrych yn flêr. Dyma ychydig gyfarwyddiadau i'ch rhoi ar ben y ffordd:

Darllenwch y ffurflen i gyd o'i dechrau i'w diwedd efo crib mân a meddylwch yn ofalus am bob cwestiwn cyn sgrifennu yr un gair.

Penderfynwch beth rydych am ei sgrifennu ar bapur bras i ddechrau. Ceisiwch osod y gwaith yn dwl – mae'n bosib bydd angen sgrifennu yn llai nag arfer. Ceisiwch osgoi sgrifennu y tu allan i'r lle priodol. Bydd rhai pobl yn tynnu llun y ffurflen wag i ddechrau ac yna'n llenwi'r ffurflen honno fel ymarfer.

Atebwch y cwestiynau mor llawn ag sy'n bosibl gan roddi rhesymau lle y medrwyd dros eich atebion.

Ysgrifennwch yn dwl ac eglur (dim ysgrifen traed brain!).

Ailddarllenwch y ffurflen gan wneud yn siŵr eich bod wedi cynnwys yr holl wybodaeth a ofynnir amdano – edrychwch am gywirdeb ac am unrhyw wallau iaith.

Gwnewch gopi o'r ffurflen cyn ei hanfon fel y gellwch ei darllen yn fanwl eto cyn mynd am y cyfweiliad.

Anfonwch y ffurflen rhag blaen.

Os teimlwch yr hoffech gynnwys manylion ychwanegol y dylai'r cyflogwr ei wybod amdano, anfonwch lythyr yn ogystal – gallai fod yn ddigon i gario'r dydd i chi.

Os gofynnir am ganolwyr, dylai un fod yn brifathro'r ysgol. (Cofiwch ofyn am ganiatad unrhyw ganolwr a enwir gennych yn gyntaf.)

Os gofynnir ar y ffurflen am 'Arholiadau wedi'u sefyll', a chithau heb fod eto wedi'u sefyll, ychwanegwch nodyn clir yn dweud 'Arholiadau i'w sefyll', ac yna rhwng cromfachau nodwch y mis a'r flwyddyn.

Os ewch i ymweld â chyflogwr i chwilio am waith, byddwch yn barod i lenwi ffurflen gais yn y fan a'r lle, os gofynnir i chi.

RHAID CYFLWYNO FFURFLEN GAIS DACLUS

Dyma gyfle arall i chwi ddarllenwyr ifanc i fanteisio ar gyngor amserol Swyddfa Gyrfaoedd Gwynedd. Y tro hwn rydym wedi ceisio canolbwyntio ar sut i fynd ati'n ymarferol i chwilio am waith – sut i ymgeisio am swyddi drwy wahanol ddulliau.

LLYTHYR CAIS

Dylai'r llythyr fod yn eglur, cryno, twt a chywir.

Defnyddiwch bapur gwyn heb linellau. Gwnewch gopi drafft o'r llythyr yn gyntaf. Sicrhewch bod enw'r person rydych yn sgrifennu ato ac enw'r cwmni yn gywir.

Tŷ Coch,
Stryd y Farchnad,
Pencoed,
Gwynedd LL51 6TB.

Ebrill 3ydd, 1984.

Y Rheolwr,
Boutique,
Y Sgwâr,
Trefechan,
Gwynedd LL52 OOC.

Annwyl Syr/Fadam,

Hoffwn ymgeisio am y swydd o weithiwr siop a hysbysebwyd yn y 'Daily Post', ar Ebrill 2il, 1984.

Rwyf yn un ar bymtheg oed ac yn gadael Ysgol Eryri yng Ngorffennaf 1984 ar ôl sefyll arholiadau Lefel O mewn Saesneg a Chymraeg ac arholiadau TAU mewn Ysgrithur, Bioleg Dynol, Mathemateg a Hanes.

Mae fy hobiau yn cynnwys chwarae hoci ac rwyf yn aelod o dîm hoci cyntaf yr ysgol. Rwyf hefyd yn hoff o ddarllen ac rwyf yn aelod o Glwb y Ffermwyr Ifanc.

Gweithiaf bob dydd Sadwrn mewn archfarchnad, ac mae gennyf brofiad o drin arian a delio efo pobl. Rwyf yn mwynhau'r gwaith yn fawr a gan fod diddordeb gennyf hefyd ym myd ffasiwn, fe hoffwn yn arw gael gwaith mewn siop ddillad.

Cytunodd fy mhrifathro, Mr. J.R. Hughes, Ysgol Eryri, Trefechan a fy nghyflogwr ar ddydd Sadwrn, Mr. D.A. Evans, Cartref, Pencoed i fod yn ganolwr i mi.

Rwyf ar gael ar unrhyw adeg i ddod am gyfweiliad.

Yn gywir,

CURRICULUM VITAE (C.V.)

Mae 'Curriculum Vitae' yn grynoded o'ch holl fanylion personol, y gellwch eu rhoi neu eu hanfon at gyflogwr. Ni ddylai gynnwys ond y ffeithiau sylfaenol amdano eich hun a dylai fod wedi'i deipio. Fodd bynnag, gan ei bod yn aml yn angenrheidiol defnyddio'r C.V. fwy nag unwaith, mae'n berffaith dderbyniol ei ffotogopio. Dylid bob amser ei gyflwyno gyda llythyr mewn ysgrifen.

Dyma enghraifft o C.V. wedi'i gwblhau. Nodwch y prif benawdau ond cofiwch mai dim ond canllawiau ydynt – hwyrach y dymunwch ychwanegu atynt neu ddileu rhai er mwyn addasu'r fformat ar gyfer y wybodaeth y dymunwch ei chynnwys.

Enw: Huw Evans

Ffôn: Betws 243

Rhyw: Gwryw

Oed: 16 mlwydd

Dyddiad a Lle Geni: 3.6.67, Bangor

Statws Priodasol: Di-briod

Ieithoedd yr wyf yn rhugl ynddynt: Dwyieithog, Cymraeg a Saesneg (ysgrifennu a siarad)

Cyflwr iechyd presennol: Ardderchog

Addysg: 1971-78 Ysgol Gynradd Trefechan
1978-84 Ysgol Uwchradd Eryri, Trefechan

Cymwysterau:
(i'w sefyll ym
Mehefin 1984)

Safon O:

Cymraeg
Iaith a Llên
Saesneg Iaith a Llên
Ffrangeg

Maes Llafur
Cyfun:

Mathemateg, Bywydeg
Daearyddiaeth

T.A.U.:

Hanes, Astudiaethau Cyfrifiadur

Diddordebau a Gweithgareddau:

Yn yr ysgol:

Yn aelod o Dîm Rygbi'r Bechgyn Uwch a'r Clwb Gwyddbwyll. Roeddwn yn y tîm a enillodd Gyfrifiadur i'r ysgol am ddyfeisio cymorth arbennig i bobl dan anfantais.

Eraill:

Rwy'n medru rhaglennu fy nghyfrifiadur fy hun. Rwyf yn aelod o'r Clwb Ieuencid a'r Aelwyd leol. (Yn Drysorydd yr Aelwyd.)

Profiad Gwaith:

Diwrnod Rhydd (day release) o'r ysgol yn ystod y bumed flwyddyn – Swyddfa Rent y Cyngor Dosbarth.

Swydd Wyliau a Dydd Sadwrn ers blwyddyn – Y Siop Fwyd, Trefechan.

GWASANAETH
TRIN GWALLT YN
EICH CARTREF

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd

Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674

i drefnu amser



D.W. DAVIES
CONTRACTWR
CLUDO

LLWYTHI BYCHAIN
5 STRYD THOMAS

LLANBERIS

Tel: 872556

Llogi Cymysgwyr

Concrit

Clirio Safleoedd

Clirio Tai

am brisiau

cystadleuol

CYLCHGRAWN NEWYDD SBON

Dyma ddatblygiad pwysig iawn ym myd adloniant yng Nghymru, sef cylchgrawn bywiog sydd yn adlewyrchu bwrwm y byd roc ledled y wlad. Mae'n cynnwys adolygiadau, storïau, erthyglau, a manylion am offer ac ati. Os ydych eisiau gwybodaeth am unrhyw grŵp yng Nghymru prynwch **DRACHT**.

Dyma neges gan y golygydd:

"Eich cylchgrawn chi yw **DRACHT** ac y mae croeso i unrhyw gyfraniadau. Ysgrifennwch erthyglau, tynnwch luniau a chartwnau o unrhyw destun a ystyriwch o ddiddordeb i ieuenctid Cymru. Bwriwch ati i wneud **DRACHT** yn adlewyrchiad teg o'r hyn sy'n digwydd."

DRACHT
1 Lôn-y-deri,
Eithinog,
Bangor.

BETH AMDANI DDARLLENWYR YR ECO?

Plant Ysgol Brynrefail yn bwrw trem yn ôl ar eu blwyddyn gyntaf.

Mrs Griffith yw ein hathrawes ddosbarth, mae yn annwyl, caredig a hoffus. Yn ein hystafell ddosbarth y byddem yn cofrestru, mae yr ystafell wedi ei haddurno gyda gwaith a lluniau o'r Eco. Yr ystafell yma yw'r orau.

Gwen Jones ac Einir Thomas

Diwrnod ofnus iawn oedd y diwrnod cyntaf ym Mrynrefail. Roeddwn yn cerdded heibio fy hen ysgol heb fynd i mewn iddi a'i hanwybyddu'n llwyr. Es yn fy mlaen ac agosau at yr ysgol fawr. Roedd fel diwrnod Eisteddfod - diwrnod cynhyrfus iawn.

Sian Jones

Pan ddechreuais yn yr ysgol roeddwn ar bigau'r drain, ar ôl cyrraedd roeddwn yn fwy nerfus byth gan mai fi oedd yr unig hogan o Ysgol Penisarwaun yn fy nosbarth cofrestru. Roeddwn eisiau gollwng popeth a rhedeg i ffwrdd. Ond nawr mae gennyf lawer o ffrindiau ac rwyf wedi setlo yn iawn.

Iola Williams

Pan ddechreuais yn Ysgol Brynrefail nid oeddwn yn hoffi'r syniad o newid ystafelloedd i bob gwers. Roeddwn ar goll yn lân, roedd y coridorau fel sbageti. Ond nawr mae'r lle yn gyfarwydd iawn i mi.

Denise Williams

FY ARDAL

Yr wyf yn byw ym Mhenisarwaun, pentref bach ydyw gyda thai ar wasgar, mae yma ysgol, eglwys a dau gapel. Mae siop yma sydd hefyd yn swyddfa bost. Ardal gyda llawer o dyddynnod yw Penisarwaun, yn yr hen amser roedd y rhan fwyaf yn gartrefi i'r chwarelwyr. Roeddynt yn cadw ychydig o dir a buwch neu ddwy i'w helpu gyda'r cyflog bychan oedd i'w gael yn yr hen amser.

Erbyn heddiw, mae llawer o'r tyddynnod wedi eu gwerthu i fod yn dai haf, mae amryw o dai newydd wedi eu hadeiladu yn ddiweddar a llawer o Gymry wedi dod i fyw yma. Ardal sydd yn weithgar ydyw gydag Eisteddfod bob blwyddyn, wythnos Garnifal yn yr haf gyda gwahanol bethau yn cael eu cynnal bob nos. Mae Clwb Ieuenctid yn yr Ysgol Gynradd bob wythnos. Mae cynllun ar dro i hel arian i adeiladu neuadd i'r pentref.

Mae Penisarwaun yn nodedig am ddangos natur ar ei orau gyda llawer o afonydd, coed, corsydd ac adar ac anifeiliaid gwyllt. Rwyf yn hapus yma ym Mhentref bach Penisarwaun.

Emyr Wyn Williams

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .

Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652



HENO HENO

Adolygiad gan
Delyth Wyn Huws

Anfonwyd llythyr i Ysgol Brynrefail, yn gofyn am gynrychiolaeth o'r chweched dosbarth i fynd i Stiwdio HTV yn yr Wyddgrug i recordio rhaglen yn y gyfres HENO HENO. Rhaglen yw hon yn ymwneud yn gyfan gwbl â barn pobl ifanc ar faterion cyfoes, fel crefydd, rhyw, heddwch ac arfogi, gwleidyddiaeth, alcoholiaeth ac yn y blaen. Mae naw rhaglen yn y gyfres yn cael eu recordio bob nos lau hyd Awst y 1af, ac yn cael eu darlledu am hanner awr wedi naw ar nos Wener.

Dewiswyd Einir Parri, Ceunant, Susan Jones, Llanrug, Helen Jones, Bethel a minnau, ac aethom i'r Wyddgrug gyda thacsi Rhiannon Morris am 4 o'r gloch nos 1au, Mehefin 20fed, i roi ein barn ar heddwch ac arfogi.

Pan gyrhaeddodd dderbynfa HTV ar ôl awr a hanner o siwrnai hebryngwyd ni i ystafell breifat tu ôl i'r stiwdio. Roedd yr ystafell yn llawn o bobl ifanc, cyflwynwyr, a chynhyrchwyr yn byrlymu siarad a chwerthin ac yn mwynhau'r lluniaeth a oedd wedi ei baratoi ar ein cyfer. Roedd yno gynrychiolaeth o'r Coleg Normal, Bangor, Ysgol Gymraeg Wrecsam, Ysgol Glan Clwyd yn ogystal â phobl ifanc o'r Wyddgrug.

Tra roeddem yn eistedd a sgwrsio roedd y cyflwynwyr, Siôn Pyrs, Angharad Jones, a Meri Huws yn dod o'n cwmpas i gael ein barn ar heddwch ac arfogi, ac yn cymryd enwau rhai ohonom. Rhoddwyd amlinelliaid byr o'r hyn oedd yn mynd i ddigwydd yn ystod y noson, ac fe gyflwynwyd y gwahoddedigion sef, Geraint Morgan cyn-aelod seneddol o Glwyd, John Owen pregethwr o Ruthun, a Felix Aubell i ni.

Roedd yn tynnu am hanner awr



wedi saith pan aeth pawb i fewn i'r stiwdio. Roedd y set wedi ei ffurfio i edrych fel clwb gyda bar a'r diod yn rhad ac am ddim, byrddau, a seddau ar ffurf grisiau. Triamera oedd yn y stiwdio, roedd y lle i gyd yn llawn gwifrau, goleuadau llachar, microffonau a pheiriannau cymhleth o bob math. Hefyd roedd nifer o setiau teledu o gwmpas i ddangos y rhannau o'r rhaglen oedd yn cael eu darlledu o Gaerdydd.

Yr unig gyfarwyddiadau a gawsom oedd i fwynhau ein hunain ac i ymateb i'r hyn oedd yn cael ei drafod. Roedd yn amlwg iawn o'r cychwyn cyntaf fod teimladau cryfion gan amryw o'r gynulleidfa. Os oedd y bobl ifanc oedd yn bresennol yn cynrychioli barn holl bobl ifanc Cymru mae'n amlwg nad yw'r mwyafrif yn cefnogi'r holl wario ar arfau niwcLEAR neu gonfensiynol, nac yn gweld Rwsia yn gymaint o fygythiad ag a honnir gan y gwleidyddion a'r Wasg.

Profodd Felix Aubell i fod yn amhoblogaidd a llwyddodd (fel arfer) i dynnu pawb i'w ben gyda'i

parhad ar dud 12

TLWS ECO'R WYDDFA CYSTADLEUAETH BÊL-DROED 6-bob-ochr

Nos Lun, Gorffennaf 8, 5.30


Cae Pêl-droed Ysgol Gynradd Llanrug

Mae'r gystadleuaeth yn gyfyngedig i blant ysgolion cynradd Bro'r Eco.

Gellir anfon dau dîm o'r un pentref

Os am gystadlu cysyllter ag Edward Elias, Gwen-y-wawr, Llanrug (Ffôn 3719)

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG**

(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175

neu Bangor 51981

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Mwynhaodd aelodau'r Gymdeithas eu Taith Hanesyddol ddydd Sadwrn, Mehefin 16. Teithiwyd i Fetws-y-coed, ac ymlaen i Lanrwst, gan aros er cael cyfle i weld Eglwys St. Crwst.

Ymhellach, ymwelwyd â Chastell Gwydr, hen blasdy Tuduriaid ar gyrion Lanrwst. Wedi mwynhau pryd, fe'n tywyswyd o gwmpas y castell a'r gerddi, lle'r oedd y peunod hardd.

Teithio Dyffryn Conwy wedyn, ar noson heulog braf i lawr i Gonwy, lle caed amser i fwynhau'r olygfa ar lan yr afon; cyn dychwelyd adref.

Trefnwyd y daith gan y Parch John Morris a Mrs Gillian Morris, Annedd Wen. Talwyd diolch iddynt gan y Parch W.O. Roberts, Manod.

MARW: Daeth y newydd trist am farwolaeth Mr Griffith Edwin Ellis yn ei gartref yn Seascale, Cumbria.

Yn frodor o'r Waunfawr, symudodd i fyw i Treflan, Llanrug, hyd rhyw 2 flynedd yn ôl, pan aeth i fyw i Seascale. Yr oedd yn aelod ffyddlon o Eglwys Pontrhythallt, ac yn gymeradwy ymysg ffrindiau lawer. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â'i briod a'r mab, y Dr John Owen Ellis a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth lem.

MERCHED Y WAWR: Igoroni'r tymor bwriadai'r aelodau fynd ar daith i Ynys Môn, i fwynhau noson o haf ar ochr orllewinol yr ynys, tuag ardal y Berffro a Rhosneigr. Ond pan ddaeth y noson, roedd fel canol gaeaf, yn oer a chwythu a glawio'n ddi-baid.

Ein harweinydd, fel arfer oedd Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr ac mae'r diolch iddi hi am wneud y noson yn fythgofiadwy. Wedi croesi'r bont, dechreuodd sgwrsio'n ddifyr a doniol a chawsom ddysgu am ddaear Môn, lle mae creigiau hynaf Prydain i'w cael wedi eu gorchuddio gan drwch o waddodion rhewlifol.

Prin yw'r dystiolaeth a adawyd gan yr helwyr, trigolion cyntaf Môn wedi cyrraedd o Ewrop o gwmpas 4000 CC. Mae'r gweddillion gweladwy, sef y beddrodau megalithig ar gyfer claddiadau lluosog, yn perthyn i gyfnod diweddarach.

Ein bwriad oedd mynd i weld Barclodiad y Gawres, siambr groes tebyg i'r un yn Newgrange, Iwerddon. Wedi cyrraedd y fan, eistedd yn y bws fu raid ac edrych dros boncan Pen-y-cnwc ar y môr brochus. Safodd y bws ac aeth Mary ymlaen gyda'r hanes.

Goroesodd y beddrodau gan mai cerrig oeddynt, a soniodd am y dulliau amrywiol a ddefnyddid gan yr adeiladwyr.

"Ardderchog o le am straeon yw'r rhan yma o'r ynys," meddai. Cawsom hanes Llys Aberffraw, hanes Edward y Brenin yn sefydlu bwrdeistref Niwbwrch ar gyfer trigolion Llanfaes, hanes anfadwaith Lladron Creigiau Crigyll a lluo o straeon eraill.

Ond dyma gyrraedd Glantraeth lle yr oedd lluniaeth ardderchog yn ein disgwyl. Er i'r tywydd fod yn angharedig roedd y cwmni mewn hwyliau da. Diolchodd Mrs Menna Williams i bawb am eu cefnogaeth ac yn arbennig i Mrs Mary Vaughan Jones am godi ysfa i ymweld eto â'r fangre ar dywydd braf. Hefyd i Mrs N. Lovatt am wneud y trefniadau. Bydd y tymor nesaf yn dechrau ar yr ail nos Fawrth ym mis Medi. Croeso cynnes i aelodau o'r newydd.

ENILLWYR RAFFL: Dyma restr o enwau'r enillwyr raffl Cymdeithas lleostomy a dynnwyd yn Ysbyty Glan

Clwyd ar Fehefin 8. Dymuna Mrs Rowlands, Llys Forgan ddiolch am bob cefnogaeth.

1. M. Gregory, Wrecsam (gorchudd gwely); 2. T. Tames, Rhuthun (dol); 2. Upson, Rhuthun (sieri); 4. P.O. Clwt-y-bont (llestri te); 5. A.J. Williams, Waun (Chirk) (Bocs siocled); 6. Emma Fisher, Wrecsam (tegan meddal); 7. C.H. Thomas, Gresford (gwin); 8. E. Salter, Waun (Chirk) (tyweli). Eraill - A. Williams, M. Roberts, Kronspon, M. Morgan, y Rhyl, Mrs Chopping, Dinbych, Matron Cefn Rodyn, Dolgellau, P.O. Clwt-y-bont; S. Tomos, Wrecsam, M. Rainer, Wrecsam.



80, 81, 100, 100, 83, 80, 140, 85, a 100 yn ystod y gystadleuaeth a gorffen gyda 76 a 72. Enillodd Patrick yn erbyn Mathew Ward yn y rownd derfynol 2-1 gyda Mathew yn cael sgoriau uchel hefyd o 80, 100, 100, 100 a 85.

Y collwyr yn y gemau cyn-derfynol oedd Wyn Parry a Ken Jones.

Mwynhaodd pawb y noson. Diolch i Mrs Owena Parry, y sgoriwr, a Mrs Dilys Jones, Mrs Eurwen Williams a Morfudd Roberts am eu help i wneud y noson yn llwyddiant.



Patrick McGuinness (ar y dde) a Mathew Ward. Patrick a enillodd yn y rownd derfynol.



PRIODAS: Llongyfarchiadau i Karen Anne, unig ferch Mr a Mrs W.S. Simmonds, Tara, Ffordd Glan Moelyn a Clive Wyn, mab hynaf Mr a Mrs W.J. Griffith, Pant Tirion a briodwyd yn Eglwys Sant Mihangel, Llanrug ar Fehefin 15 gyda Rheithor y Parch Aled Williams yn gweinyddu. Byddant yn cartrefu yn Treforfa, Ffordd yr Orsaf.

TAITH Y GYMDEITHAS UNDEBOL



Aelodau'r Gymdeithas Undebol yn ystod eu hymwelid â Chastell Gwydr. (Llun: Y Parch John Morris)

DATHLU'R DARTIAU: Nos Fawrth, Mai 21 bu tîm dartiau merched Pen-bont yn dathlu eu llwyddiant drwy ddod yn drydydd yng Nghynghrair Dartiau Merched Caernarfon. Yn ystod y noson chwaraewyd am gwpan y diweddar John Bangor. Yr enillwyr eleni oedd Mr Gwilym Owen a Mrs Pricilla Owen. Cyflwynwyd y buddugwyr â'r gwpan gan Mrs Eirlys Williams.

Ar y noson cyflwynwyd tarian y perfformiad gorau'r tymor i Mrs Angela Williams. Hefyd yn y llun mae Mrs Morfudd Roberts yr enillydd am y ddwy flynedd flaenorol.

Carai merched y tîm ddiolch yn fawr iawn i Mr a Mrs Tony Roberts, Pen-bont am eu cefnogaeth drwy'r tymor ac i Mrs Roberts am baratoi'r wled ar y noson.

YR YSGOL FEITHRIN: Dyddiad i'w gofio! Ar ddydd Mawrth, Gorffennaf 2 am 10.45 a.m. mae gwahoddiad cynnes i famau a phlant ddod i'r Ysgol Feithrin yn Festri Capel Pontrhythallt. Mae'r gwahoddiad yn agored i'r rhieni sydd â'u plant yn dechrau'n yr ysgol fis Medi nesaf. Bydd cyfle i'r mamau gael sgwrs â'r athrawes a'r weinyddes, a chyfle i'r plant gynefino â'r ysgol.

Os am ychwaneg o wybodaeth am weithgareddau'r Ysgol Feithrin, cysyllter â'r Ysgrifenyddes, Mrs F. Roberts, Glyn Awel, Llanrug (Ffôn: Caernarfon 4324).

Parhad o dud 11

sylwadau ceidwadol, yn enwedig pan ddywedodd y buasai'n gwneud lles i bob un ohonom ni oedd yn cymryd rhan ar y rhaglen ymuno â'r fyddin i ddysgu beth yw disgyblaeth. Cythruddodd Aubel un bachgen gymaint bu bron iddi fynd yn ysgarmes rhyngddynt.

Rwyf wedi gwyllo dwy allan o'r dair rhaglen HENO HENO, sydd wedu eu darlledu hyd yn hyn, ac rwyf wedi mwynhau y ddwy. Mae'n fath hollol newydd o raglen Cymraeg. Nid oes yna fawr o gyfle i blant a phobl ifanc Cymru ddweud eu barn nac i ymddangos ar deledu. Mae'r rhaglen yma yn rhoi y cyfle i ymuno mewn trafodaeth gweld a chlywed grwpiau pop Cymraeg a bod yn rhan o gynhyrchiad rhaglen mewn stiwdio.

Mae'n debyg mai diffyg mwyaf y rhaglen yw nad oes digon o amser i'r dadleuon gael eu datblygu'n llwyr, rhwng y sgets a grŵp pop yr wythnos, yn enwedig pan fydd rhywun fel Felix Aubel yn gwrthod distewi pan fo'r cyflwynwyr yn gofyn iddo.

Er hynny rwy'n edrych ymlaen i weld gweddill o raglenni'r gyfres.

ATGOFION CYNNAR AM ARDAL Y WAENFAWR

(gan John Owen Harvey, Llangefni)

“AR A FU”

Heb ofyn am lawer o ddychymyg ar eich rhan dewch gyda fy ffrind Peter Bayley a finnau yn ôl i'r Waunfawr, ychydig dros hanner can mlynedd yn ôl. Dowch gyda mi i lawr Allt-y-bont, heibio'r afon, troi ar y chwith a thrwy'r lliadiard haearn. Mae iard yr Orsaf Rheilffordd yn ymestyn i'r golwg a gallwn weld fod y chwarae wedi dechrau yn barod. Slogio pêl galed gyda bat yn perthyn i Tom Ellis wna'r hogia, Gwyn a Dewi Glanfa, Alun o'r Groeslon a John Danwyn - heb anghofio Harold Henderson.

Sut bynnag, ar ôl i mi fod yn chwarae am gyfnod, gwelwn Capten Ellis yn mynd i'r tŷ ar ôl bod yn sefyll yn gwylio wrth y gwrych yng ngwaelod yr ardd. Mae'n siŵr ei fod wedi cael digon o edrych ar y criced, os dyna yr enw cywir. Dyma gyfle i gael taro'r bêl, gwnaf, â fy holl egni, ond bobol bach dyna swm gwydr yn malu'n deilchion. Wrth i'r bêl galed godi'n uchel, aeth drwy'r ffenestr fawr, ac i mewn i'r lolfaf. Yn fy nychryn, rhedeg adref gan ddweud wrth Mam beth ddigwyddodd. Wel, diwedd y gân oedd mynd gyda hi i dŷ Tom, a bron mewn dagrau, syrthio ar fy mai wrth ei rieni. Ond chwarae teg i Mrs Ellis, wna hi ddim cymryd yr un geiniog. "Fe allasai Tom fod wedi gwneud yr un peth," oedd ei geiriau caredig.

Tua'r un amser dyna gerdded o fy nghartref draw ar hyd y ffordd fawr drwy'r Waun ac ymlaen i dŷ hardd o'r enw Gwynfa. Cyfarfod â bachgen yr un oed â mi, sef Leslie. Mab i chwaer Mrs Annie Jones, perchennog y cartref moethus yma. Yn wir mae Leslie wedi bod yn disgwyl yn llawn croeso. O hyn ymlaen rhaid ceisio gwneud fy ngora i chwarae a'i ddifyrru - gan mai dyna oedd prif bwrpas cael hogyn cyffredin fel fi, dros dro, i flas math o fywyd na allwn obeithio ei gyrraedd. Ar ddydd Sul am rai blyneddodd wrth ddod o'r Ysgol Sul byddai cnoc ar y ffenestr, yn arwydd i mi fynd i Gwynfa er mwyn chwarae a chael te. Cefais bopeth fedrai fy stumog ei ddal, fel mewn gwesty, a hefyd ymuno mewn chwaraeon. Cymaint o wahanol rai nes i mi gredu nad oedd yr un Tywysog yn berchen ar fwy. Gan mai mewn Ysgol Fonedd yr addysgwyd fy ffrind - yn y Waun yr hoffai dreulio pob gwyliau - gyda morwyn y tŷ yn edrych ar ei ôl.

Cofio mynd allan i'r tir gwyllt a'r coed y tu ôl i Gilfechyd a Chwarel

Dudley Parc i chwilio a chael gweld Ogof Shôn Prys. Dyna'r math o antur diniwed a gymerai le trwy'r dyddiau cynnes pan nad oedd ysgol na dim byd i boeni amdano.

Dro arall draw â mi i ochr Llyn Cwellyn ger y clogwyn elwir yn Cidwm, yna cychwyn i chwilio tarddiad afon fechan. Cyn hir cawsom ein hunain mewn tir corsio yng ngodre'r Mynydd Mawr, neu fel y'i gelwir gan rai y Mynydd Eliffant. Edrych wnaethom i fyny ar y creigiau ysgythrog a dim i'w glywed ond bref un ddafad unig. Teimlad ofnus a rhyfedd ddaeth i ni yn y rhan dywyll yna, allan o belydrau'r haul, a throi i gyfeiriad y Waun heb golli amser oedd y peth gora i ni wneud.

Fe aethom hefyd i ochr Moel Eilian ger yr Ystrad, Betws Garmon, a dringo i'r hen waith haearn. Dyna chi le - ymhell o fod yn ddiogel i rai anturus fel ni. Taflu cerrig i lawr y tyllau dyfnion wnaem gan glywed y taro ar y gwaelod, yna gweld yr esgyrn defaid a phethau eraill wrth edrych yn ofalus dros yr ymyl.

Yn y rhan llydan o Afon Gwyrfa i gwelid Lesli a finnau yn adeiladu rafft gyda choed, tyniau olew gweigion a rhaffau. Treulio wnaethom lawer diwrnod wrth ymyl y graig gron ger y bompren, dyna mae'n siŵr oedd ein lle hapusaf ni. Gyda Gwen y forwyn yn edrych ar ôl y bwyd, a'r fasged yn llawn bopeth ar ein cyfer roedd hi'n braf arnom. Nid oedd amser yn cyfri dim i ni ac yng ngwres yr haul ar lan yr afon gwelwn natur ar ei gora. Nofio yn y dŵr grisial oedd yr hwyl a cheisio dal ambell i bysgodyn yn fethiant bob tro. Pan fyddai'r haul yn cilio, dyna gychwyn cerdded yn ôl heibio Bryn Beddau ar hyd y ffordd gul gydag ambell i lidiart arni, neu ar hyd y llwybrau a mwy nag un camfa i fynd drostynt. Braf

oedd gweld Modurdy Non yn dŵad yn nes a gwybod ein bod yn agos adre.

Un o'r chwaraeon newydd i ddod i siopau'r dref am y tro cyntaf erioed oedd yr enwog 'monopoly'. Daeth un i gartref Tom Ellis, a wedi'r gwadd - dyna chi hwyl oedd chwarae hon yn ei gartref gyda ffrindiau. Pawb yn prynu a gwerthu gwesdai, rhesi o dai, a gorsafoedd Llundain am lawer o bunnoedd. Er mai adeiladau bach o goed oeddynt a ffug oedd y nodau, gwnai hyn i mi deimlo'n gyfoethog.

Yn y gaeaf tywyll, oer, ger giât fawr Plas Glynafon ac yng nghysgod y ddwy goeden gadarn oddeutu'r fynedfa byddem ni'n cyfarfod. Yno'n blant o wahanol oed y gwnaem y dewis-chwarae am y noson. Yn hoff gan bawb, yr un a elwid 'Hunt' fyddai'r dewis yn aml iawn. Hanner y plant yn cuddio, ac ymhen chwarter awr yr hanner arall yn cychwyn i chwilio amdanynt. Byddai hyn yn cymryd amser hir, bron tan y galw i'r tŷ, a'r gwely. Nid oedd oleu ar y ffyrdd yr amser yma, dim ond golau gwan y lampau olew drwy ffenestri'r cartrefi. Yn y tywyllwch y cymerai'r chwarae le a'r cuddio yn y coed, y caeau a'r hen adeiladau, hyd a lled y pentref, yn orchwyl caled.

Diwrnod mawr i ni blant y Waun, fel llawer pentref arall, fyddai'r Wibdaith Ysgol Sul flynyddol i un o drefi glan môr y gogledd. Byddai'r dewis wedi digwydd rhai wythnosau yn gynt gan aelodau mewn oed yr Ysgol Sul - drwy godi llaw mewn pleidlais agored. Rhyl, Bae Colwyn, Llandudno, Pwllheli neu'r Bermo fyddai'r enwau bob blwyddyn. Nid oedd y rhan fwyaf o'r plant, beth

bynnag, eisiau ond un enw, a Rhyl oedd y lle. Yno, ynte oedd y Marine Lake, y trê'n bach, y cychod, a'r holl bethau eraill wnâi blant o'r wlad eu mwynhau. 'Rwy'n gweld o flaen fy llygaid y dyn mawr gyda chroen tywyll, yn y wisg Indiaid Cochion, a'r plu eryr o gwmpas ei ben, yn ein cyfarch ar gychwyn gwario pob ceiniog yn y man chwarae yna, er stalwm.

Ar ôl swper chwarel blasus - byddai amryw o'r chwarelwyr, yn enwedig y rhai ifanc, yn dringo dros ben wal newydd a amgylchynai gae chwarae'r ysgol. Dyna fyddai cychwyn rhywbeth a alwyd gan rai yn bêl-droed. Sôn am gicio traed, yn lle'r bêl, meddyliwch am esgidiau trymion, hoelion mawr, y chwarel yn erbyn esgidiau cyffredin! 'Roedd nerth a phwysau'r gic gan chwarelwyr yn ddigon i'r bêl fynd o'r golwg tua dau gae i ffwrdd.

Pan aethom ychydig yn hŷn a symud i ddosbarth tri a phedwar o dan ofal Mr Williams, cawsom ddechrau dysgu garddio. Cynllun da ydoedd a gwnaeth yr athro a'r prifathro waith ardderchog yn creu diddordeb yn y pwnc. Byddai tri bachgen dros dro yn gweithio ar ddarn hirsgwâr, gyda cherrig mawr yn dal y pridd i mewn. Tyfu tatws a llysiau oedd y gwaith mwya yn ystod y tymor. Rhaid fyddai cadw'r llwybrau yn lân a'r berth o ddrain gwyllt yn dwt. Cofiaf fel y byddai'r hogia mwya' a hynaf yn cael y fraint o fynd o gwmpas y pentref o dŷ i dŷ gyda berfa yn llawn o gynnyrch yr ardd. Gwerthu'r cwbl, am bris rhesymol, a mynd yn ôl am lwyth arall - y cwblw er mwyn cael ychydig o arian i brynu hadau erbyn y flwyddyn nesa'.

CYLCHGRAWN CYNGOR Y DYSGWYR

Nod y cylchgrawn - I fod yn gyfrwng i ni ddysgwyr i fynegi ein profiadau wrth ddysgu'r Gymraeg a gloywi ein hiaith; i hysbysebu cyrsiau Cymraeg a gweithgareddau CyD yn y gwahanol ardaloedd.

Pwy fydd yn ei gynhyrchu? - Cynhyrchir y Cylchgrawn gan Fwrdd Golygyddol CyD.

Pryd bydd e'n dod allan? - Pob tri mis a'r rhifyn cyntaf i ddod allan mis Medi, 1985.

Beth fydd cost y cylchgrawn? - Dosberthir y cylchgrawn yn rhad ac am ddim i bob aelod o Gyngor y Dysgwyr.

Cysylltwraig â'r cyhoedd: ar ran y Bwrdd Golygyddol: Carole George (0222) 708934.

Paham y'i sefydlwyd - er mwyn helpu dysgwyr i ymdoddi i'r byd Cymraeg trwy drefnu a chyd-drefnu gweithgareddau cyfathrebol a chymdeithasol ar gyfer ac er budd oedolion sydd yn dysgu'r Gymraeg.

Pryd y'i lanswyd - Cafoddy Cyngorei lansiô yn ystod y Brifwyl yn Llanbedr Pont Steffan y llynedd.

Pwy yw'r Cadeirydd? - Yr Athro R.M. Jones, Coleg y Brifysgol Cymru, Aberystwyth.

Sut i ymaelodi - Y mae ffurflenni ar gael oddi wrth ysgrifenydd CyD: Miss Elen Rhys, Swyddog Dysgu'r Gymraeg i Oedolion, Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, Caerdydd CF1 3AE Ffôn 0222 32326 neu 7

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr..

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

**CRONFA GOFFA
R.H. OWEN**

Gwahoddir ceisiadau am gymorth daliadau o'r Gronfa uchod. Cynigir cymorth mewn cylch eang o weithgareddau, a cheir yr amodau a'r manylion, ynghyd â ffurflenni cais, gan yr ysgrifennydd:

**ALED OWEN, 13 CHARLOTTE ST.,
LLANBERIS**

Bydd yn ofynnol i'r ceisiadau ddod i law erbyn
AWST 31, 1985.

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol bron wrth y drws. Awn, felly, i gwmni'r bardd Mynyddog.

Gwrandewch!

Yr haul ymsuddai dros y bryn
I'r eigion fel ryw gawr,
Pan gurai hogyn gwelw, syn,
Wrth ddrws amaethdy mawr:
Gofynnai hwn o dan ei bwn
A'i fochau'n llwyd eu gwedd,
"Ple gallaf gael ryw damaid gwael
Yn hogyn gyrru'r wedd?"

Clywais fy nhad, Glan Rhyddallt, yn dweud mai fel yna y canai'r hen brydyddion, yn hollol syml a naturiol. Y mae purdeb iaith, meddwl, ac amcan yn cyfuno'n swyn peraid yn holl gerddi Mynyddog. Heblaw bod yn feistr ar wneud "caneuon gwersi" yr oedd Mynyddog hefyd yn ddychanwr medrus, a hynny heb ddigio neb.

Dyma rai o destunau ei gerddi: *Rhannu'r Caws; Taw pia hi boys; Rhoi'r troed orau mlaen; Rhwyga dy gwch dy hun; Nid aur yw popeth melyn; Pobl y drws nesaf; Y Nhw; Boxer y ceffyl blaen; Y dyn sy'n mynd â hi.*

Byddai hwyl anfarwol wrth wrando ar Mynyddog yn canu ei ganeuon ei hun, ac yn cyfeilio ar ei harmonium fach ei hun mewn cyngherddau yma a thraw trwy Gymru. Yr oedd Mynyddog, felly, yn dri yn un - bardd, datganwr a chyfeilydd, yr oedd hyn yn rhyfeddod yn yr oes o'r blaen ond nid yw'n syndod heddiw. 'Doedd neb gwell na Mynyddog yng Nghymru am arwain eisteddfod. Yr oedd ei ffraethineb yn batrwm, medda nhw! Heb law hyn yr oedd Mynyddog yn feistr ar y cynganeddion hefyd.

1833

Ganed Mr Richard Davies (Mynyddog) yn Y Fron, Llanbryn-mair, yn y flwyddyn 1833. Dygwyd ef i fyny i fod yn amaethwr, ond buan y gadawodd y fferm, a throi at gerddoriaeth, barddoniaeth a llenyddiaeth. Ysgrifennai i'r *Herald Gymraeg* o dan y ffugenw *Y dyn a'r baich drain*, a bu'n ymgeisydd llwyddiannus mewn amryw eisteddfodau.

Mynyddog a ysgrifennodd eiriau i'r opera *Gymraeg* gyntaf erioed, sef *Blodwen* gan Joseph Parry. Hefyd

Cantawd y Tylwyth Teg, Emlyn Evans. Cyhoeddodd dri llyfr *Caneuon; Ail Gynnyg a Trydydd Cynnyg*. Cyhoeddwyd *Pedwerydd Cynnyg* ar ôl ei farw ymhen rhyw bum mlynedd. Bu farw yn y flwyddyn 1877, yn yr oedran cynnar o 44 mlynedd. Claddwyd ef yn ôl ei ddymuniad ym mynwent ei hen ardal Llanbryn-mair. Y mae ei ganeuon yn dal yn eu blas o hyd, er enghraifft, *Ond; Cartref; Gyda'r Wawr; Pistyll y Llan*. Yr oedd ei awen yn dlws, yn bert ac yn llawn teimlad. Dyma enghraifft o'i gân dlos i'r *Ddeilen*.

Dim ond deilen fechan, felen,
Dyfai gynt yng nghoed yr ardd,
Boed mewn llyfr rhwng dwy ddalen
Flwyddau'n ôl gan Ellen hardd.
Gwerdd pryd hynny oedd y ddeilen,
Hithau, Ellen, oedd yn iach,
Ond daeth chwa i wywyo Ellen,
Felly hefyd gwywai'r ddeilen,
Dim ond deilen felen, fach.

Myfanwy

Y gân fwyaf poblogaidd o'i waith ydyw *Myfanwy* a dywedir mai canu ei brofiad mae'r bardd. Gwnaeth Dr Joseph Parry gerddoriaeth iddi ar gyfer côr meibion. Dyma'r pennill cyntaf.

Paham mae dicter, O! Myfanwy,
Yn llenwi'th lygaid duon di?
A'th ruddiau tirion, O! Myfanwy,
Heb wrido wrth fy ngweled i?
Pa le mae'r wên oedd ar dy wefus,
Fu'n cynnu cariad ffyddlon ffôl?
Pa le mae sain dy eiriau melys
Fu'n denu 'nghalon ar dy ôl?

Pistyll y Llan

Pwy na chlywodd y ddiweddar
Leila Megane yn canu *Pistyll y Llan*?
(Alaw Gymreig: Tyb y Tywysog)
Dyma'r pennill cyntaf.
Mae pistyll henafol yn ymyl y Llan,
A draenen ganghenog yn gysgod i'r fan:
O'i gylch mae'r genethod y bore a'r nawn
Yn disgwyl dan ganu eu llestri yn llawn:
Gwenu'n llon o ddydd i ddydd
Mae y ffrwd risialaidd rydd,
Nid yw'n cwyno ar ei byd
Er rhoi a rhoi o hyd:
Mae'r merched yn canu
Cân felys gan foli
Y dwfr gloym glân,
A'r pistyll yn gwenu
Wrth glywed y gân.

Y Lygodyn

Un gall, fileinig yw hi - ac nid hawdd
Yw gwneud dim ohoni:
Er ei hwylus feistrol
Pwy sy'n well na pws i ni?

J.J. BRAICH

CYNHADLEDD RHANBARTH ARFON O BLAID CYMRU

Cynhaliwyd cyfarfod brwd, bywiog o gynhadledd Rhanbarth Arfon Plaid Cymru yn Institiwt Caernarfon, ddydd Iau, Mehefin 6, 1985. Bydd cynrychiolwyr o bob cwr o'r etholaeth yn lleisio barn ar faterion o bwys i bobl Arfon gyda'r bwriad o wella, newid neu gryfhau gwasanaethau.

Er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus galwai cynnig gan Bwyllgor Rhanbarth Arfon am ddileu pob cwango, megis Awdurdod Iechyd Gwynedd, a gosod cyrff etholedig yn eu lle. Condemniai'r cynnig hwn ymddygiad trahaus Awdurdod Iechyd Gwynedd tuag at Dr Carl Clowes a galwai am ddiswyddo'r panel a fu'n ystyried ei apêl.

Mewn cynnig cynhwysfawr ar dwristiaeth anogodd Cangen Llanbedrog i lunio polisïau a fydd yn hybu'r economi leol ac yn Gymreig ei reolaeth a'i gyfeiriad. Ymhlith nifer o ddulliau gweithredu eraill perthnasol y dylai Plaid Cymru ymgymryd â nhw yn y cyfamser, y mae "gwrthwynebu datblygiadau enfawr megis marinau a meysydd adloniant nes eu bod yn rhan o strategaeth gynllunio ystyrlawn y Cyngor Sir a fydd yn gofalu hefyd am ystyriaethau cyflogaeth a diwylliant" a "pwysu ar gwmnïau a busnesau i gyflog; pobl leol ar amodau a chyflogau a gymeradwyir gan undebau llafur."

Pryder am ddiffyg swyddi parhaol i bobl ifanc oedd byrdwn cynnig Cangen Rhostryfan. O newid ei blaenoriaethau gwario gallai'r llywodraeth ymorol am swyddi parhaol i bobl ifanc drwy wario llai ar arfau rhyfel:

"Nid yw'r cynllun hyfforddi ieuencid wedi bod yn ateb i'r broblem a theimlwn fod y llywodraeth yn ei ddefnyddio i ddileu'r ieuencid o ffigurau'r di-waith."

Ymdriniai nifer o gynigion ag addysg. Roedd canghennau Llanbedrog a Phen Llŷn mewn cynnig cyfun yn gweld Comisiwn Gwasanaethu'r Gweithlu yn llawer rhy ymwithgar ac yn galw ar y llywodraeth i'w gadw o dan well rheolaeth fel na all orfodi ei ewyllys ar sefydliadau a mudiadau, ac i beri iddo roi ystyriaeth llawer manylach i safon yr hyfforddiant a gynigir ganddo a bod hwnnw ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i bawb a'i myn.

Roedd Cangen PenLlyn, mewn cynnig arall, am i bwysau gael ei roi ar y llywodraeth iddi ryddhau chwaneg o arian i alluogi awdurdodau addysg Cymru ymdopi

â'r problemau arbennig sy'n codi wrth iddyn nhw geisio darparu addysg ddwyieithog.

Yn sgîl galwad gan Gangen Llanbedrog am ganolfannau preswyl i ddysgu Cymraeg i fewnfudwyr oherwydd bod y mewnlifiad cyson yn dirymu polisïau iaith ein siroedd, talwyd teyrnged uchel i waith yr uned hyfforddi a sefydlwyd yng Nghaernarfon y llynedd. Nodwyd bod plant sy'n mynychu'r ganolfan hyfforddi hon yn dod i siarad Cymraeg yn rhugl mewn llai na thymor.

"Gresyn," meddai'r Cynghorydd Pat Larsen, "bod yr ysgolion uwchradd oherwydd diffyg darpariaeth, yn dad-Gymreigio plant a ddysgodd Gymraeg yn yr ysgolion cynradd."

Condemnio'r llywodraeth yn gryf iawn wnaeth Cangen Llanllyfni drwy ei chynrychiolydd Alun Ffred Jones am iddi roi nawdd i addysg breifat ar draul addysg gyhoeddus. Nodwyd llawer enghraifft o'r modd y mae diffyg arian yn mennu ar addysg ein plant - adeiladau'n dirywio, dim digon o gyfarpar, dim digon o lyfrau a chwtogi ar nifer yr athrawon. Bellach mae addysg feithrin fel rhan o addysg gyhoeddus mewn perygl gwirioneddol o gael ei diddymu. Mae'n rhaid gwario llawer rhagor ar y gwasanaeth hanfodol yma os yw ein plant i gael chwarae teg.

Os oedd unrhyw amheuaeth ym meddwl unrhyw un o'r cynadleddwyr ynglŷn â'r angen am sefydlu Bwrdd Marchnata Llaeth i Gymru cyn i Richard Jones o Chwillog siarad doedd dim amheuaeth wedyn. Eglurodd yn fanwl fel y mae diffyg Bwrdd Marchnata Llaeth i Gymru yn peri colledion sylweddol parhaus i'n ffermwyr.

A daeth Pwyllgor Parc Eryri o dani'n drwm gan Gareth Williams, cynrychiolydd Cangen Beddgelert. Nododd sawl penderfyniad o eiddo'r Pwyllgor oedd yn gwbl annerbyniol, ac ar sail y rheiny galwai'r Gangen am newid cyfansoddiad pwyllgorau'r Parciau Cenedlaethol i gyd a'u gwneud yn gyrrff cyfan gwbl etholedig.

Ni fodlonwyd ar feirniadu'r llywodraeth a chyrrff enwebedig yn unig. Cafwyd siarad plaen am ddiffyg effeithiolrwydd llawer o ganghennau'r Blaid hefyd. Wrth nodi hynny, pwysleisiodd Richard Morris Jones ar ran y Pwyllgor Rhanbarth bod yn rhaid i'r canghennau i gyd ymysgwyl a gweithredu yn llawer mwy effeithiol er lles y cymdogaethau y sefydlwyd nhw i'w gwasanaethu.

Trafodwyd cynnig a alwai ar y Cyngor Sir i wella ffyrdd Pen Llŷn; cynnig a alwai ar y Swyddfa Bost i roi'r gorau i ganoli'r gwasanaeth gan Gangen Chwillog a chynnig gan Gangen Porthmadog a alwai ar Swyddfa Cymru i ddatgan ar fyrder ei strategaeth a'i chynlluniau ar gyfer y rhai sy'n dioddef o nam meddyliol. Pwysai'r cynnig hwn am adnoddau ariannol digonol ar gyfer gwasanaeth cyflawn iddynt.

Cyflwynir pob cynnig sydd heb fod â wneio â materion lleol i sylw'r Gynhadledd Genedlaethol a fydd yn cyfarfod yn nes ymlaen.

Bistro

45 Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871 278

(Danny a Nerys Roberts)

Rhwng Ynys Môn a Pharis
Does unile gwell i'w ddewis
Am bryd o fwyd, waeth ble y bo,
Na'r Bistro yn Llanberis.

Pryd gorau'r fro a mwy o le i'w fwyta

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs. G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)

CLWB GWYRFAL: Mai 3 aeth aelodau o'r Clwb ar daith o gwmpas Sir Fôn. Treuliwyd awr ym marchnad Llangefni, cyn mynd ymlaen am banded o de yn Benllech. Roedd y gwanwyn yn ei ogoniant a'r daith i Porth Swtan yn blesurus iawn ar ddiwrnod braf.

Trefnwyd y cyfan gan Mrs Parry Williams a'r ddwy drysoryddes, Mrs M. Lloyd Jones a Miss G. Lewis a diolchwyd yn gynnes iawn iddynt am eu gwaith, ac anfon ein cofion at Mrs Lloyd Jones a Miss Williams, Is Eilian oedd yn yr ysbyty.

Ar wahoddiad Miss Owilda Williams hyderwn ymgyfarfod yn Bod Iwan am 3.15 ddydd Mercher, Gorffennaf 10.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod yn y Ganolfan nos Iau, Mai 23, dan lywyddiaeth Mrs Olwen Williams. Cydymdeimlwyd â Mrs Edith Ellis yn ei phrofedigaeth o golli brawd.

Mr Maldwyn Thomas o Fangor oedd y gŵr gwadd, a diolchodd Mrs Mary Vaughan Jones iddo am sgwrs ddifyr.

Rhodddwyd y raffl gan Mrs Gillian Wyn a'r enillydd oedd Mrs Mary A. Owen.

Trefnir Taith Ddirgel ar Fehefin 27 a bydd bws yn gadael y Llythyrdd am 6.30 o'r gloch.


DOSBARTH WEA: Dywed Rol Williams, trefnydd y dosbarth lleol fod trefniadau wedi'u cwblhau ar gyfer y gaeaf nesaf. Cynhelir dwy ddarlith ar 'Y Chwareli yn Arfon' gan Mr Dafydd Roberts, dwy ddarlith ar 'Hanes Teulu Glynllifon' gan Mr Gareth Haulfryn Williams a dwy ddarlith gan Miss Nia Watkin Powell, Nantmor ar 'Tuduriaid Môn'. Bydd y dosbarth yn cychwyn ar nos Lun, Medi 30 yn yr ysgol leol, a gobeithir y ceir cefnogaeth i'r trefniadau ar 'Agweddau ar Hanes Gwynedd'. Ceir rhagor o fanylion yn y dyfodol.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Mae rhaglen y tymor nesaf bron wedi ei chwblhau, a bydd y tymor yn cychwyn nos Lun, Hydref 28 gyda darlith gan y dihafal Parch John Alun Roberts, Abergele ar y testun 'Chwalu'. Yn ystod y tymor ceir darlith gan y Parch Harri Parri, ffilm ar ei hymweliad a Rwsia gan Mrs Mary Vaughan Jones, Seiat Holi gyda Ms Meg Dafydd, John Roberts Williams ac eraill, noson gyda'r aelodau yn adrodd stori un o'u trysorau, a chinio. Ceir rhagor o fanylion ym Medi, a gobeithir y ceir yr un gefnogaeth i'r gymdeithas y gaeaf nesaf ag a gafwyd y llynedd.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR:

Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Mai: 1. £40: Mrs Gladys Jones, 3 Rhes Eilian; 2. £25: Mrs A. Thomas, 7 Bro Waun; 3. £10: Mrs Owen, 7 Tref Eilian.

YR URDD: Llongyfarchiadau i Elli Haf, Pen y Berth, ar gael y 3ydd wobwr am chwarae'r Ffliwt yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd, ac i Osian, Meilir, Rhys a Kevin, ar gael y 3edd wobwr am wneud Cywaith campus ar astudiaeth o lain o dir.



DIOLCH: Dymuna Alun Williams, Bro Waun, ar ran Pwyllgor Caernarfon o 'Muscular Dystrophy' ddiolch yn fawr iawn i Mr a Mrs Barry Walker a'u cwsmeriaid ym Mryn Eirian, am gasglu £442 mewn gwahanol weithgareddau eleni.

YR YSGOL FEITHRIN: Cynhelir Ffair Haf, ddydd Sadwrn, Gorffennaf 13 am 2 o'r gloch yn y cae y tu ôl i'r Ganolfan. Bydd nifer o stondinau a gobeithir cynnal cystadleuaeth pêl-droed a mabolgampau. Gwyliwch y posteri am fanylion pellach.

TARIAN GERDD YR YSGOL



Dr a Mrs J.A. Davies yn cyflwyno'r gwobrau cerdd i Gwennan Wyn Jones (chwith) ac Ella Wyn Jones. Rhoddir y darian gan Mrs Ann Marston.

YR YSGOL:

Enillwyd Tarian Gerdd yr Ysgol eleni gan ddwy eneth Ella Wyn Jones a Gwennan Wyn Jones. Rhodddwyd y Darian gan Mrs Ann Marston i'w hennill yn flynyddol gan y plentyn sydd yn cyfrannu fwyaf i weithgareddau cerddorol yr ysgol yn ystod y flwyddyn. Mewn cyfarfod yn yr ysgol ddydd Gwener, 21 Mehefin, cyflwynwyd y Darian iddynt gan y Dr J.A. Davies, Cyn-brifathro'r Coleg Normal, Bangor. Cyflwynwyd tariannau unigol i'r ddwy eneth gan Mrs J.A. Davies.

Caset Côr Plant ac Offerynnwyr yr Ysgol: Dechrau Gorffennaf cyhoeddi caset côr yr ysgol dan arweiniad Mrs E. Eames, wedi ei recordio gan Gwmni Sain. Mae'r caset yn cynnwys eitemau gan y Côr, Offerynnwyr, Unawdau lleisiol ac offerynnol. O ddiddordeb arbennig i'r rhai sydd wedi eu 'magu' yng Nghapel Bethel ceir datganiad ar gyn organ fawreddog Capel Bethel gan Ild Eames. Gellir pwrcau'r caset trwy'r prifathro, staff neu blant yr ysgol.

Ymdeoliad: Ar ôl coginio bwyd i blant am gyfnod o dros ddeng mlynedd ar hugain daeth amser i Mrs Arianwen Thomas (Anti Arian i'r plant) ymdeol. Diolchwn yn gynnes iawn iddi am ei blynyddoedd maith o wasanaeth i fwydo cannoedd o blant a dymunwn iddi hir oes ac iechyd da i'w fwyhau.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr Peter Evans, Preswylfa, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed ar Fehefin 15.

LLONGYFARCHIADAU: i Edgar Jones, Bryn Teg, ar ei benodiad yn Ddirprwy Brif Swyddog Cynllunio a Swyddog Diwydiant yng Nghyngor Bwrdeistref Brycheiniog, ym Mhowys. Hwyl fawr iddo a'r teulu.

Hefyd i Meira Turner, Collfryn, ar

ennill y wobwr gyntaf ar y Brif Adroddiad, ac i Alun Williams, Bro Waun, ar ennill yr ail wobwr ar yr Unawd Gymraeg, a'r 3edd wobwr ar y Brif Unawd, y ddau yn Eisteddfod Llanfair T.H. ger Abergele.

CYDYMDEIMLWN â Maureen Griffiths, Bryn Eilian, ar golli mam.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion at Mrs K. Roberts, Derlwyn a Mrs A. Jones, Benallt sydd yn yr ysbyty. Dymuniadau gorau am lwyr wellhad buan iddynt.

ADREF O'R YSBYTY: Gobeithiwn fod Mr R.W. Roberts, 9 Bryn Golau; Mr Gwilym Hughes, Tref Eilian; Alfona Lewis, Ael y Bryn; Aeron Jones, Glyn Ceris a Mari Bevan, Tŷ'r Heddlu, yn gwella ar ôl eu harhosiad yn yr ysbyty.

CROESO I'R WAUN: Estynnwn groeso cynnes iawn i John Huws a'r teulu, sef Heulwen a'r plant Lowri a Rhys, i'w cartref newydd 'Argoed'. Bu John yn ddiwyd iawn yn ystod misoedd garw'r gaeaf yn adeiladu'r tŷ hardd.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos Iau, Mehefin 6 aeth aelodau Sefydliad y Merched am daith gyda'r nos i Lanbedrog. Cafwyd pryd o fwyd yng Ngwesty Rock House ac yna mynd i weld yr Arddangosfa o luniau ym Mhlas Glyn y Weddw. Roedd Mr a Mrs G. ab Tomos yno i'w croesawu. Mae Gwyneth Tomos, sy'n enedigol o Gaeathro wrth gwrs, yn adnabyddus iawn fel arlunydd, ac roedd llawer o ddarluniau o'i gwaith yn yr Oriel. Mae Mr a Mrs ab Tomos wedi bod yn gweithio'n galed iawn i atgyweirio'r Plas, ac mae'r hyn sydd wedi ei wneud yno yn barod yn chwaethus iawn. Pob lwc iddynt ar eu gwaith.

CYDYMDEIMLWN: yn fawr â Mr Arthur Ellis, Min y Nant, ar golli brawd, Mr Owen Emlyn Ellis.

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

**Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)**

**SIMNEIAU GWael? CRACIAU?
MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?**

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

WAUNFAWR (parhad)

CYFARFOD BLYNYDDOL Y GANOLFAN: Dywedodd y Cadeirydd, Eurig Wyn, fod pwyllgor y Ganolfan yn ddiolchgar eithriadol i bawb yn y pentref am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

Dywedodd y trysorydd, Edgar Owen, fod y rhan fwyaf o'r dyledion wedi eu clirio, ond apeliodd Dewi Jones am fwy o aelodau i'r Clwb 300 gan fod y clwb yn help sylweddol i wynebu costau dyddiol y Ganolfan.

Etholwyd tri aelod newydd i'r pwyllgor, sef Carys Jones, Beti Gruffydd a Duncan Brown.

Penderfynwyd agor y Ganolfan ar adegau yn ystod yr haf os y gellid cael pobl i wirfoddoli i edrych ar ôl yr ieuencid sy am fynd yno.

CYNGOR CYMUNED: Mae trefniadau mewn llaw i dorri gwair ar hyd llwybrau'r pentre ac yn y caeau chwarae. Bydd y gwaith yn cael ei wneud ar unwaith. Gwneir gwaith cyffelyb yng Nghaeathro hefyd.

Mae Cyngor Arfon yn dweud y byddan nhw'n codi ffens arbennig i rwystro peli rhag malu ffenestri yng nghefn Bryngolau.

Cafodd y ceisiadau cynllunio canlynol eu trafod:

Cytunodd y cyngor gyda chais i ledi mynedfa isaf Cae Main. Gwrthodwyd i adeiladu tŷ dros y fynedfa newydd Antur Waunfawr am ei fod y tu allan i ffiniau adeiladu'r pentref ac felly'n groes i gynllun fframwaith Cyngor Arfon. Cafodd y mater ei drosglwyddo i sylw Arfon.

Etholwyd Edgar Owen fel cynrychiolydd y cyngor ar fwrdd llywodraethwyr Ysgol Waunfawr.

Yng nghyfarfod diwetha'r cyngor penderfynwyd y dylid hysbysebu yn y pentref i weld a oes rhywun yn dymuno cynnig pris i ofalu am y llwybrau, a hefyd Gerddi Bach.

Penderfynwyd peidio agor cyfrif arbennig i'r Cadeirydd. Barnwyd mai'r peth gorau oedd i'r cyngor llawn benderfynu ar bob cyfraniad ariannol i fudiadau a chymdeithasau.

Danfonir llythyr at Heddlu Gogledd Cymru i weld a oes unrhyw fwriad i symud swyddfa'r heddlu o'r pentref. Gofynnir i'r heddlu hefyd i gadw gwyliadwriaeth rhag i geir yrru'n rhy gyflym drwy'r pentref yn ystod yr haf. Dywedodd y Cyngorhwydd Dic Jones y bydd yn mynd ar ôl Cyngor Gwynedd er mwyn eu cael i wella cyflwr y Lôn Ddŵr.

Llythyrir â'r Cyngor Sir hefyd i bwysio arnynt i ledaenu mynediad uwchben Ffordd Pantywaen allan i'r Lôn Ysgol.

Gofynnir i bobol hefyd i beidio gadael eu cŵn yn rhydd ar gaeau'r Ganolfan, nag ychwaith i fynd â'u cŵn am dro yno.

Trafodwyd tri chais cynllunio. Gofynnwyd i Manweb a Chyngor Arfon am fwy o fanylion am fast radio VHF y bwriedir ei godi yng Nghewnant. Pwysleiswyd fod cais Mr Gwilym Williams, Fferm Bodhyfryd i adeiladu tŷ wedi ei basio 'mlaen i Gyngor Arfon i'w ystyried am ei fod tu allan i ffiniau'r pentref ac felly'n groes i gynllun fframwaith Arfon.

Penderfynwyd caniatáu i Mr R.C. Jones, Hafod Wen, Caeathro i adeiladu estyniad i'w dŷ yn y pentref.

BETWS GARMON

PRIODASAU ARIAN: Llongyfarchiadau i Gwynfor a Glenys Williams, Ty'n Weirglodd ar ddathlu eu priodas arian Mehefin 6.

Hefyd llongyfarchwn lestyn a Brenda Jones, Cynefin ar ddathlu eu priodas arian hwythau ar Gorffennaf 23.

PEN-BLWYDD: Dymuniadau gorau i lolo Peredur Jones, Cynefin ar ddathlu ei ben-blwydd yn 21ain oed Gorffennaf 15.

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

DIOLCHIADAU: Dymuna Mr Gwilym Davies, Afallon y Ddôl, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd, eu llythyrau, cardiau, rhoddion ac ymweliadau, yn ogystal â'u galwadau ffôn, tra y bu yn Ysbyty Gwynedd, ac ar ôl iddo ddychwelyd adref.

CLWB Y MAMAU: Cafwyd Helfa Drysor lwyddiannus iawn, wedi ei drefnu gan Mrs Nan Owen a Mrs Grace Jones, nos Fercher, Mai 22. Cyrhaeddodd yr aelodau Gwesty Gwynedd, Llanberis, i gael pryd o fwyd ardderchog.

Yr enillwyr oedd Pat, Lona, Sulwen, Olwen ac Olwen a'r colledwyr oedd Glenys ac Eileen.

Enillwyd y raffl gan Mrs Glenys Jones.

Etholwyd swyddogion am 1985-86 fel a ganlyn: Llywydd: Mrs Olwen Williams, Ceris, Ysgrifenyddion: Mrs Carys Williams, Cremlyn a Mrs Sheila Lambrecht, Bro Rhos. Trysoryddion: Mrs Grace Jones, Bro Rhos a Mrs June Jones, Corra Linn. Aelodau o'r pwyllgor: Mrs Nan Owen, Berwyn, Mrs Pat Hughes, Mrs Lona Jones a Mrs Sulwen Thomas, Ystâd Eryri.

Cyflwynwyd blodau i Nan a Grace ar ran yr aelodau gan Mrs Olwen Williams.

YSGOL FEITHRIN: Ar ddydd Sadwrn Mehefin 8 aeth ychydig o rieni a ffrindiau'r ysgol ar daith gerdded at gopa'r Wyddfa. Fe hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb a gerddodd ac i bawb a'u cefnogodd yn y fenter. Codwyd tua £150 tuag at yr Ysgol Feithrin.

Fe fydd y plant yn mynd i Sŵ Bae Colwyn ar Fehefin 27, trip i ddiweddu'r tymor, er na fydd yr ysgol ddim yn cau tan Gorffennaf 11.

Hoffai'r plant ddiolch o galon i Anti Rita ac Anti Margaret am ei caredigrwydd tuag atynt yn ystod y flwyddyn i ddiolch yn bellach fe fydd mamau'r plant yn mynd â'r ddwy allan am bryd o fwyd yng ngwesty'r Foelas Llanrug.

Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar dros ben i bawb sydd wedi cefnogi'r Ysgol Feithrin yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Os oes unrhyw blentyn yn ddwy a hanner erbyn Medi a diddordeb i fynd i'r Ysgol Feithrin a wnaiff eu rhieni gysylltu â Delyth Williams, Monarfon, Saron neu Mair Read, Llwydiarth erbyn diwedd mis Awst.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU: Bwriedir trefnu bws i fynd i'r Eisteddfod yn y Rhyl ddydd Iau, Awst 8, 1985 (diwrnod seremoni'r Cadeirio).

Os oes rhywun â diddordeb, cysylltwch â Mrs Nan Owen, Berwyn, Saron, mor fuan ag sydd yn bosibl (Portdinorwig 670763).

Pris yw £2.00 i oedolion a £1.00 i blant.

CARNIFAL 1985: Eleni, bydd dwy gystadleuaeth garddio yn gysylltiedig â'r carnifal - yr ardd flodau neu'r lawnt dwtiaf a'r ardd lysiau orau.

Os oes rhywun eisiau rhoi ei enw - cysylltwch â'r ysgrifenyddes, Mrs Nan Owen, Berwyn (Portdinorwig 670763) cyn Mehefin 28 os gwelwch yn dda. Nid oes tâl am drio, felly, rhowch eich enwau heb oedi.

PÊL-DROED 5-BOB-OCHR: Mae ffurflenni'r gystadleuaeth yma yn awr i'w cael gan Mr Richard Lloyd Jones, 5 Y Ddôl.

CLWB FFERMWYR IEUAINC: Cynhaliwyd rali Ffederasiwn Ffermwyr Ieuainc Eryri yng Ngholeg Glynllifon, ddydd Sadwrn, Mai 25, 1985. Bu nifer o aelodau yn cystadlu mewn gwahanol gystadlaethau ar ran y clwb o ddreifio tractor a traclar i goginio ac o goluro wyneb i lanhaus pysgod. Cawsant gryn lwyddiant hefyd:

Addurno teisen dan 26 oed: Jane Thomas 1af. Gwaith Coginio: Pryd Traddodiadol Cymreig: Ellen Hughes a Jane Thomas, 1af. Smwddio Crys (Bechgyn): Alwyn Jones, 1af. Barnu

Defaid Hanner Brid dan 21 oed: Dylan Griffiths, 2il. Model o Bentref: Ellen Hughes a Morfudd Williams, 3ydd. Ymladd Gobennydd: Morfudd Williams, 3ydd. Dyma restr o'r gweddill a fu'n cystadlu ond ni ddaethant i'r brig y tro hwn. Cneifio gyda pheiriant: Elwyn Griffiths. Cystadleuaeth Coginio dan 18 oed: Catrin Evans. Dreifio tractor a threlar: Elwyn Griffiths a Jane Thomas. Tywarchen o welltglas: Myfyr Jones. Glanhau Pysgod: Barry Evans. Arddangosiad o Grefftwaith gyda sylwebaeth: Myfanwy Jones. Ras rwystrau sach wlaen: Huw Morgan, Eurwyn Jones, Barry Evans ac Elwyn Griffiths. Cneifio gyda pheiriant: Dylan Griffiths ac Elwyn Griffiths. Newid olwyn car: Tracy Jones. Coluro wyneb: Gareth Hughes a Catrin Evans.

Cafwyd hwyl yn hyfforddi ac yn cystadlu a hynny oedd yn bwysig.

Yn eu cyfarfod blynyddol etholwyd y canlynol yn swyddogion y clwb am 1985-86. Cadeirydd: Morfudd Williams, Dinas Farm, Bontnewydd, Is-gadeirydd: Huw Morgan, Llwyn Bedw, Bethel; Ysgrifennydd: Ellen Hughes, Rhodican Farm, Caernarfon a Jane Thomas, Morgoro, Llanwnda. Is-ysgrifennydd: Geraint Jones, Stâd Eryri, Bethel. Trysorydd: Myfanwy Jones, Glan-y-gors, Bethel. Is-drysorydd: Tracy Jones, 4 Bro Rhos, Bethel. Bydd y tymor yn dechrau ym mis Medi ac fe fydd rhaglen o weithgareddau wedi eu trefnu erbyn hynny.

MERCHED Y WAWR: Nos Fercher, Mehefin 12 daeth tymor y gangen i ben gyda thaith ddiddorol iawn i garchar Biwmares, ac yna pryd yn Nhŷ Mawr, Llanfairpwll. Trefnwyd y noson gan y llywydd, Mrs Glenys Griffiths, yr ysgrifenyddes, Mrs Ceinwen Williams a'r drysoryddes, Mrs Mair Jones. Diolch iddynt hwy a'r pwyllgor am flwyddyn hapus a diddorol. Penderfynodd y pwyllgor gyfrannu £20 o gronfa'r gangen i'r Neuadd Goffa. Dymuna'r pwyllgor y gorau i bwyllgor '86, i'r llywydd, Mrs Mair Price, Mrs Nora Parry yr ysgrifenyddes, a Mrs Lynwen Morris, trysoryddes.

LLONGYFARCHIADAU: i Janice Price, Llys Gwynt, Seion ar dderbyn gradd B.A. yn Aberystwyth.

DIOLCH: Dymuna Mrs Glenys Griffiths a Mrs Rita Williams ddiolch i famau plant côr yr Urdd am y rhoddion a diolch hefyd i'r plant am roi cyfrif da ohonynt eu hunain yn yr Eisteddfod yng Nghaerdydd.

CYDYMDEIMLAD: Ddydd Sul, Mehefin 9 yn dawel yn ei gartref ac ar ôl gwaeledd hir bu farw Mr Ivor Jones, Awel y Grug. Estynnwn pob cydymdeimlad at y teulu yn eu profedigaeth.

Ar Fehefin 4 roedd Mrs Jones yn dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed. Dyma benillion a anfonwyd i'r gohebydd drwy'r post i'w chyfarch ar yr achlysur hwnnw.

Eistedd i fyfyrwyr wnaethom
Elen Fwyn
Am y teithio cyflym cyflym,
Elen Fwyn,
Aros mae ein heirdd fynyddoedd
Y clogwyni a'r dyffrynnoedd
Ninnau'n myned am byth bythoedd
Elen Fwyn
Camfa arall ddaeth i'ch cwrddyd
Elen Fwyn
Ond mae gwynfyd yn eich bywyd
Elen Fwyn
Llwyd ymroddwch trwy eich doniau
I wasanaethu Duw eich tadau
Pwy â wŷr faint eich aberthau
Elen Fwyn
MARI LEWIS

POB HWYL I BAWB YN Y
FRO FYDD YN CYSTADLU
YN Y RHYL DDECHRAU
AWST.

O.M. ROBERTS

CADEIRYDD NEWYDD CYNGOR
SIR GWYNEDD

Yng Nghyfarfod Blynyddol Cyngor Sir Gwynedd a gynhaliwyd yn Siambr Newydd y Cyngor ar ddydd Iau, 17 Mai, etholwyd y Cyng. O.M. Roberts, aelod ward Nant Conwy 1 ar y Cyngor Sir, yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 1985-86. Mae'r Cyng. Roberts yn olynu'r Cyng. Emyr Davies, Harlech, a fu'n Gadeirydd am y flwyddyn 1984-85.

Mae'r Cyng. Roberts yn frodor o Lanrug ac fe dderbyniodd ei addysg yn yr Ysgol Gynradd leol, Ysgolion Uwchradd Brynrefail a Syr Hugh Owen, Caernarfon, cyn mynd i Goleg Prifysgol Bangor. Yno, fe raddiodd fel baglor mewn gwyddoniaeth (mathemateg a ffiseg), a dilynodd gwrs hyfforddiant fel athro.

Bu'n dysgu yn Llundain am gyfnod cyn dychwelyd i'w hen sir i ddysgu ym Methesda. Aeth oddi yno i Ysgol Fodern Llandudno cyn cael ei benodi'n Brifathro Ysgol Gynradd Deganwy ac, yn ddiweddarach, yn Brifathro Ysgol Gynradd Cyffordd Llandudno. Bu'n brifathro am gyfnod o un mlynedd ar hugain.

Oherwydd ei hen swydd, roedd yn naturiol i'r Cyngorydd Roberts ymddiddori mewn addysg ar y Cyngor Sir. Bu'n Gadeirydd ar Bwyllgor Addysg Gwynedd rhwng 1976 a 1978, ac y mae wedi bod yn Gadeirydd Is-bwyllgor Iaith a Diwylliant y Cyd-bwyllgor Addysg Gymreig am rai blynyddoedd. Mae'n eistedd hefyd ar Gyngor Prifysgol Cymru, ar Gyngor Coleg Prifysgol Bangor ac ar Gorff Llywodraethol y Coleg Normal. Mae'n aelod o nifer o gyrff llywodraethol ysgolion ei ardal, ac ef oedd Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol y Creuddyn pan y'i agorwyd yn swyddogol y llynedd.

Mae'r Cyng. Roberts yn Ynad Heddwch, a bu'n Gadeirydd Mainc Ynadon Llandudno am gyfnod, a chyn ad-drefnu llywodraeth leol ym 1973-74, bu'n Faer ar dref Conwy.

Drama, gwleidyddiaeth a golff yw diddordebau'r Cyng. Roberts y tu allan i lywodraeth leol. Gwasanaethodd fel Ysgrifennydd Pwyllgor Drama Eisteddfod Genedlaethol Bae Colwyn, 1947, ac fel Cadeirydd yr un pwyllgor ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Llandudno, 1963.

Mae'r Cyng. Roberts a'i wraig, Mrs Eluned Roberts, sy'n hanu o'r Waunfawr, yn byw yn Llanbedr-y-Cennin, ger Conwy.

AR WERTH

BEICS
BEICS
BEICS

i blant o 4 i 12 oed
Ffôn: Felinheli 670861

CHWYN MWYAF LLWYDDIANNUS YR UGEINFED GANRIF

Mae mwy a mwy o dir amaethyddol yn cael ei golli i ddiwydiant, i adeiladu tai ac i adeiladu ffyrdd. Mae rhannau helaeth hefyd o dir Cymru yn cael ei golli i fforestydd conifer. Ond mae math arbennig o chwyn sy'n dwyn tir hefyd; planhigyn eithaf cyffredin – rhedyn.

Yn ystod y 1960'au gwnaethpwyd arolwg o lystyfiant Cymru gan Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Yn ôl yr arolwg hwnnw, roedd bron i 6% o holl dir Cymru wedi ei orchuddio â rhedyn – yn enwedig rhannau o Wynedd. Mae'r planhigyn yn ymestyn o'r arfordir i ucheldiroedd dros 600m. Pe bai yn bosibl casglu'r holl dir rhedynog at ei gilydd, byddai'n gorchuddio Gwent. Dim ond ychydig mwy na hyn o dir â'r sydd yng Nghymru.

Nid yw'r gwaith ymchwil wedi bod mor fanwl yn Lloegr a'r Alban, ond mae'r arolwg yn awgrymu fod 10,000 hectare o ucheldir yn cael ei golli i redyn bob blwyddyn. Ar raddfa o'r fath, gallai sir o faint Clwyd ddiflannu dan redyn erbyn y flwyddyn 2000.

Er gwaethaf dadleuon rhai ffermwyr, mae rhedyn yn wenwynig, ac mae llawer o dda byw yn dioddef yn enwedig yn ystod mis Mai fel y mae'r planhigyn yn gwthio tyfiant newydd allan o'r ddaear. Mae gwaith ymchwil yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru ym Mangor wedi dangos fod rhedyn hefyd yn gallu achosi cancer mewn anifeiliaid sydd wedi ei bori.

Mae peryglon carcinogens (sy'n achosi cancer) yn uwch pan fo dŵr yn cael ei ddefnyddio'n syth oddi ar lethrau wedi eu gorchuddio â rhedyn. Mae ardaloedd lle mae canran uchel o'r boblogaeth yn dioddef o ganser ar y stumog, i'w canfod:

- lle mae llawer o fetel yn y pridd
- lle mae gorchudd trwchus o fawn
- lle ceir tyfiant trwchus o redyn.

Mae'r tair ffactor uchod yn wir am Wynedd.

Yn ogystal â pheryglon iechyd, mae rhedyn hefyd yn elyn i blanhigion eraill. Mae ei ddeiliach yn cysgodi'r haul rhag pob planhigyn arall, ac y mae ei wreiddiau'n ormes yn y pridd.

Mae galw mawr ar hyn o bryd i wared lethrau'r ucheldir o chwyn, ac i adfer y borfa naturiol. Mae llawer o ffermwyr yn ymwybodol o golli tir i redyn ar y lethrau – a hynny'n amharu ar y borfa – yn enwedig i ddefaid a gwartheg. Y dulliau traddodiadol o wared rhedyn yw aredig, torri neu losgi; ond mae'n ymddangos erbyn hyn mai mesurau dros-dro yn unig yw'r rhain. Gwnaethpwyd arbrofion ger

Aberystwyth sy'n dangos fod 98% o dir rhedynog yn cael ei glirio wrth chwistrellu â'r gwenwyn 'knapsack'. Mae angen gwneud hyn yn niwedd Gorffennaf a dechrau Awst pan fo'r rhedyn yn ei lawn dŵf, ac yn fwy tebygol o gael ei niweidio gan y gwenwyn. Dylid chwistrellu ar ddyddiau sych, a gorau oll os ceir deuddydd neu dri o dywydd sych yn dilyn hefyd. Ar ddechrau'r hydref, rhaid clirio'r holl sbwriel rhedynog o'r tir, ei aredig ac ail-hadu â gwair a meillion.

Mae grantiau ar gael i wneud y gwaith, ond mae'r amodau sydd ynghlwm wrth y grant yn golygu y gallai'r derbynydd orfod gwario'n helaeth ar y cynllun i ddechrau, ac yna orfod disgwyl yn hir cyn i'r grant gael ei thalu'n llawn iddo. Er gwaethaf diffygion y sustem grant, mae'n debyg fod adfer tir rhedynog o fwy o werth i ffermwr na'r sustemau adfer sy'n boblogaidd ar hyn o bryd, sef adfer tiroedd gwlyb a rhostir.

Nid ym Mhrydain yn unig y mae rhedyn yn broblem. Mae gwledydd fel Japan a Seland Newydd yn dioddef hefyd. Yn wir, ychydig iawn o wledydd y byd sy'n gwbl rydd o'r chwyn hwn; oherwydd gall ffynnu mewn llawer math o hinsawdd; yn amrywio o boethder trofannol Brasil i oerni gogledd Canada; o 250 cm o law yng Nghymru i flynyddoedd a sychder ar Ynysoedd y Canary. Does ryfedd iddo gael ei alw'n chwyn mwyaf llwyddiannus yr ugeinfed ganrif.

Car y Golygydd – tybed?

Carbon ym mhlygiau'r cerbyd – a'i du mewn

Wedi mynd, yn enbyd;
Annifyr ei swm hefyd,
A'i holl gorff yn dyllau i gyd.

ROGER JONES



I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...

**Osmond
W. Shaw**
DEINIOLLEN

Ffôn:

LLANBERIS 870545
Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore

DINORWIG

GOHEBYDD- Mr. O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

CYNGOR CYMUNED: Calonogwyd y Cyngorydd Glyn Tomos yn fawr gyda'r ymateb a gafodd gan yr ardalwyr i'r pwyntiau a godwyd ganddo yn y Cyngor Cymuned ynglŷn â'r cynllun ad-ennill tir o Minffordd i'r Allt Ddu. Dal i ddisgwyl ateb Cyngor Arfon mae Mr Tomos ar hyn o bryd gan fawr obeithio y daw penderfyniad rhyw ffordd neu'i gilydd o fewn yr wythnosau nesaf. Yn y cyfamser mae Mr Tomos wedi codi dau bwynt arall hefyd sydd yn ymwneud â'r cynllun sef y posibiladau o symud y ddau arwydd 'Dim ffordd trwodd' sydd wedi eu lleoli wrth ymyl Ty'n Fawngog ac hefyd ynglŷn ag arwynebedd llwybr cyhoeddus o'r Minffordd i lawr i Gapel Dinorwig. Ymddengys mai barn nifer o'r ardalwyr yw symud arwyddion 'Dim ffordd trwodd' o'u safle presennol a'u lleoli yn Allt Ddu. Y tueddiad ar hyn o bryd yw i'r drafnidiaeth droi'n ôl wrth ymyl Ty'n Fawngog gan feddwl na allent fynd ymlaen i Allt Ddu. Canlyniad hyn yw bod nifer o foduron, a lorïau yn eu mysg, wedi ceisio troi o fewn man cyfyng iawn ac yn achosi bob math o broblemau. Ymateb Adran Cynllunio Cyngor Sir Gwynedd i gais Mr Tomos i symud yr arwyddion yw eu bod am drafod y mater gyda Chyngor Arfon ac wedyn adrodd yn ôl iddo.

Ynglŷn â safon arwynebedd llwybr cyhoeddus o'r Minffordd i Gapel Dinorwig mae llythyr wedi ei anfon at Gyngor Arfon yn nodi cwynion rai o'r ardalwyr sydd yn teimlo bod yr arwynebedd presennol yn gwbl anaddas o safbwynt cerdded arno. Mae'r llwybr yma yn cael ei gerdded yn aml iawn yn arbennig ar y Sul gan fynychwyr Capel Dinorwig ac oherwydd hyn mae'n ddyletswydd ar Gyngor Arfon i'w wneud yn addas ar gyfer cerddwyr. Os oes rai ohonoch wrth ddarllen hwn yn cytuno ynglŷn â'r uchod yna da chwi cynorthwywch eich Cyngorydd drwy anfon gair at Gyngor Arfon yn cefnogi'r pwyntiau uchod. Y cyfeiriad er mwyn anfon eich llythyr yw **Cyngor Arfon, Cwellyn, Ffordd Llanberis, Caernarfon**. Cofiwch ni wnâi neb arall sefyll dros eich ardal – mae'n ddyletswydd ar bob un ohonoch i wneud eich rhan.

DIOLCH: Dymuna Mr Gwilym L. Williams, 9 Rhes Fictoria, Deiniolen a Mr Gwynfor Jones, 38 Pentre Helen, Deiniolen, cyn-yrwyr Bysus Deiniolen, ddiolch o galon i ardalwyr Dinorwig a'r Fachwen, am eu rhodd haelionnus a'u dymuniadau da tuag atynt, pan yn gorffen eu gwasanaeth gyda'r bysus.

PEN-BLWYDD: Dymuniadau da i Mrs

Megan Morris, Minffordd ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 70 mlwydd oed ar Fehefin 10 eleni.

O'R YSBYTY: Da deall fod Mrs Eileen Phillips, 6 Maes Eilian, Dinorwig, wedi cael dod adref o Ysbyty Gwynedd. Daliwch i wella.

Dymuniadau gorau i Mr Richard Gwilym Jones, Tan y Buarth Uchaf, sydd yn Ysbyty Gwynedd a dymunir gwellhad buan iddo yntau.

LLONGYFARCHIADAU I: Mr Hefin Jones, Glan Ffynnon, Llanrug (5 Maes Eilian, Dinorwig gynt), mab Mrs Annie Jones, a'r diweddar Mr David Jones, o'r un cyfeiriad, ar ennill ei SRN yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Pob lwc i'r dyfodol.

O'R YSBYTY: Da gweld fod Mrs Betty L. Roberts, 11 Maes Eilian, wedi dod o'r ysbyty. Daliwch i wella.

MARW: Bu farw Mr Hugh S. Jones, Buarth Newydd yn 85 mlwydd oed yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, ar Fehefin 16 eleni. Cafodd gystudd caled. Cydymdeimlir â'i weddwyd, Mrs Jennie Jones, a'i fab, Mr Stanley Jones, y Rhyl, ynghyd â'r cysylltiadau teuluol eraill yn eu profedigaeth.

DIOLCH: Dymuna Betty Lloyd Roberts, 11 Maes Eilian ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion, a'i ffrindiau oll am y llu cardiau, a'r holl anrhegion. Hefyd y galwadau a dderbyniodd yn ystod ei harhosiad yn Ysbyty Gwynedd, ac ar ôl dod adref. Diolch hefyd i'r meddygon a'r gweinyddesau Ward Ogwen. Llawer o ddiolch hefyd i'r gweinyddesau lleol.

CYDYMDEIMLIR Â: Mr David R. Jones, Bron Myfyr, ym marw ei frawd Mr Hugh S. Jones, Buarth Newydd.

Ein cofion at yr ardalwyr sy'n cwyno yn eu cartrefi.

DIOLCH: Dymuna Evan Bryn, Annette, Olwen a Marina ddiolch yn fawr i nifer o drigolion Dinorwig am brynu casét yn dwyn y teitl 'Teulu Tŷ'r Ysgol', a wnaeth y teulu yn ddiweddar.

O BANTRI BETH



CACEN FFRWYTHAU – wahanol

1 pwys mincemeat
12 owns ffrwythau sych, cymysg
2 owns 'mixed peel'
4 owns ceirios 'glacé' wedi eu haneru
4 owns cnau ffrengig (walnuts)
8 owns creision yd (cornflakes) wedi eu malu
3 wy wedi eu curo
can 14 owns 'condensed milk'
llwy de o 'mixed spice'
llwy de o 'baking powder'

Rhowch y cyfan mewn bowlen a'u cymysgu'n dda. Rhowch y gymysgfa mewn tun 8" crwn wedi ei iro'n dda. Pobwch mewn pobdy cleaear – (150°C, 300°F, Marc Nwy 2) am tua 1½-2 awr. Gadewch i'r gacen oeri am tua 10 munud ac yna ei throï ar blât i orffen oeri.

W.H. JONES

TRYDANWR

**Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS**

FFÔN:
LLANBERIS 871470

Contractau
Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLLEN
Llanberis 870484

* Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a
Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i
bensynwyr, myfyrwyr
a phlant ysgol

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

YSGOL TAN-Y-COED: Yn ystod yr ysbaid poeth a gawsom cynhaliwyd Mabolgampau'r ysgol yng nghae 'King'. Dyma'r canlyniadau:

Adran Babanod: Rhedeg, genethod: 1. Ceitlin, 2. Lois, 3. Eleri a Sioned Wyn. Bechgyn: 1. Paul, 2. Rhys.

Plant iau: Dan 10 oed: 1. Mórigan, 2. Sioned, 1. Llŷr, 2. Jonathan. Dan 12: 1. Corinna, 2. Stephanie. 1. Andrew, 2. Siôn. Naid Uchel, Babanod: 1. Angela, 2. Ben, 3. Aled. 1. Daniel, 2. Rhys. Babanod Uchaf: 1. Arwel, 2. Matthew, 3. Ceitlin. Safon 1 a 2: 1. Llŷr, 2. Arwel. 1. Hefina, 2. Sioned. Dan 12 oed: 1. Zarah, 2. Corinna. 1. Siôn, 2. Wayne. Naid Hir: Dan 10 oed: 1. Mórigan, 2. Sioned, 1. Llŷr, 2. Llion. Dan 12 oed: 1. Corinna, 2. Stephanie. 1. Siôn, 2. Bedwyr. Taflu: Babanod: Bag-ffa: 1. Llŷr Griffith, 2. Ben, 3. Aled. Taflu Pêl, dan 10 oed: 1. Sioned, 2. Joanna. 1. Arwel, 2. Jonathan. Dan 12 oed: 1. Stephanie, 2. Yvonne. 1. Wayne, 2. Siôn. Taten ar lwy: Babanod lleiaf: 1. Dafydd. Babanod: 1. Angela, 2. Ynyr. Babanod Uchaf: 1. Lois, 2. Sioned, 1. William, 2. Rhys.

Wedi'r mabolgampau hyn aeth criw o'r plant iau i gystadlu ym Mabolgapau'r Urdd yn Ysgol Syr Hugh Owen. Er ein bod yn ysgol fach cawsom beth llwyddiant a mwynhaodd pawb ei hun yn cymryd rhan.

Mehefin 14-17 aeth 14 o'r plant hŷn i dreulio pen-wythnos yng Nghanllyn gyda Mr Mowll. Bu'r tywydd yn ffafriol iawn ac ni chafodd neb lawer o gwsig - pawb yn codi cyn Cŵn Caer! Diolch i Mr Mowll am roi ei amser i'r plant a gobeithio ei fod wedi dadflino!

Casglwyd £82 gan blant yr ysgol i apêl Dr Barnardo. Eleni, roedd yr apêl ar ffurf cwis i'r plant iau a lliwio darluniau i'r plant ieuengaf. Diolch i bawb fu'n casglu ac yn noddi.

CAPEL BOSRA: Gan obeithio y bydd tywydd Gorffennaf yn well nag un Mehefin, edrychwn ymlaen am y trip ar 6 o Orffennaf. Tâl y trip fydd £2 i oedolion, £1 i blant - nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul. Arian i Mrs Elisabeth Jones, cyn Gorffennaf 4ydd os gwelwch yn dda. Bydd y bysiau yn cychwyn am 9.30 a.m.

Eglwys Santes Helen: Cynhaliwyd dydd Gweddï a Rhodd, eleni ar ddydd Sul yr 2il o Fehefin. Cafwyd gwasanaeth o Gymun Bendigaidd yn y bore a Gosber a Phregeth gan y Parch Emrys Edwards, Caernarfon yn y pnawn. Hwn oedd gwasanaeth olaf ein Ficer, y Parch Aled Edwards yn y plwyf. Yn ystod yr offeren rhoddwyd anrheg i blant y Ficerdy sef Seimon, Meleri a Steffan gan blant yr Ysgol Sul dan arweiniad eu hathrawes Mrs Mary Davies. Yng ngwasanaeth yr hwyr, cyflwynodd Mr Tegid Roberts dysteb i'r Ficer ar ran yr Eglwys a chyfeillion yn y pentref. Dywedodd air i ddymuno'n dda i'r Parch a Mrs

Edwards a'r teulu yn eu gofalaeth newydd ym Motwnnog. Hoffai'r Wardeiniaid ddiolch i'r rhai hynny yn y plwyf a gyfrannodd tuag at y dysteb.

GŴYL GORAWL Y PLANT: Dyma enwau'r plant a gafodd lwyddiant yn yr Ŵyl a gynhaliwyd yn Llanfair-is-gaer ar y Sul wedi'r Dyrchafael.

Am waith ysgrifenedig: Yvonne Orrock. Am waith llafar: Andrea Paterson, Sioned, Nia, Siân a William Lewis, Eryl Jones, Dafydd Jones, Matthew Jones, Daniel Rowlands, Benjamin Rowlands, Huw Tegid Roberts, Ynyr Gryffydd Roberts, Seimon Edwards ac Eleri Williams.

Llongyfarchiadau blant a diolch i Mrs Eiriona Williams am eich arholi.

Yn ddiweddar, clywsom am farwolaeth Mr Gwilym Pritchard, Porth Church House, y Felinheli. Bu'n galw yn achlysurol yn yr Eglwys fel Darllenydd Lleyg. Gedy weddw a mab.

Cofiwch am y trip fore Sadwrn, 6 o Orffennaf.

Clywsom hefyd fod chwaer y diweddar John Pritchard, Pensarn, wedi marw, ein cydymdeimlad ag Alff a'r genod.

CROESO: Croeso cynnes i Ffion a Derek sydd wedi ymgartrefu yn 11 Bryn Eglwys. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Croeso adref i Dylan Williams, seibiant bach o'r fyddin.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr a Mrs T.W. Griffith ar fod yn daid a nain eto. Dymuniadau da i Mr a Mrs Bob Leadbitter, Glyn Arthur, ar enedigaeth merch fach, Caren Mary, wyres i Mr a Mrs Hywel Roberts, Fferm Penrhos, Bethel.

Llongyfarchwn Gwenan a Huw Dafydd, Golygfa'r Wyddfa ar enedigaeth eu merch fach Rebecca Mai.

Dathlodd Mrs Nesta Jones ei phen-blwydd yn 87 oed ar Fehefin 4. Dymuna ei ffrindiau yn Llys y Gwynt, hir oes iddi eto.

Pob bendith i Caren Jones, Camelot a fydd yn ddeunaw oed ym mis Gorffennaf.

Balch ydym o longyfarch Mr Tony Elliott ar gael ei apwyntio'n Ddarlithydd mewn Addysg yn y Coleg Normal. Ein dymuniadau gorau ichi, Tony.

DIOLCH: Dymuna Ellen, Elinor a Delyth ddiolch i'w ffrindiau a gefnogodd y noson goluro - Estée Lauder. Gwnaed elw o £45 tuag at Gronfa'r Neuadd.

Y mae Mrs Nesta Jones, hithau, am ddiolch i'w pherthnasau a chyfeillion am y llu o gardiau ac anrhegion a

gafodd ar achlysur ei phen-blwydd.

Dymuna Mrs Elinor Jones, Heather Bank ddiolch am y cardiau a gafodd yn ystod ei phrofedigaeth o golli ei chwaer.

Dymuna Ann Ifans ddiolch i ffrindiau Parti'r Heulwen am eu rhodd arbennig.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlwn â Mrs Rose Jones yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer a oedd hefyd yn fodryb i Mr Ken Mowll.

GWELLHAD: Er nad yw'r tywydd yn codi llawer ar galon rhywun, gobeithio fod pawb fu'n cwyno yn gwell.

YSGOL FEITHRIN: Carem dynnu sylw'r mamau sy'n gysylltiedig â'r Ysgol Feithrin at Gyfarfod ar Orffennaf 4ydd o 10.00 - 10.30 a.m. i drafod dyfodol y mudiad yma ym Mhenisarwaun. Croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb yn y Mudiad Meithrin.

CARNIFAL - Gorffennaf 7-13: Dyma weithgareddau'r wythnos: **Nos Sul**, 7: am 8 o'r gloch Cymanfa Ganu yng ngofal Arwel ac eitemau gan Barti'r Heulwen, Penisarwaun.

Nos Lun: am 7 o'r gloch, Bingo yn Neuadd yr Eglwys. Galw-wraig, Helen Owen.

Nos Fawrth: am 6.30 p.m. Gemau Giamocs yng Nghaeau King.

Nos Fercher: Noson i blant yn Ysgol Gynradd a phlant dosbarth cyntaf Ysgol Brynrefail.

Nos Iau: Mabolgampau dan ofal Mrs Jennifer Fletcher a Mr Dic Parry.

Nos Wener: Disgo yn y Clwb i blant y pentref yn unig dan ofal Eric Jones.

Dydd Sadwrn: am 2.00 p.m. Carnifal y Pentref yng Nghae King dan arweiniad Mr Tony Eliot a Selwyn Jones. Beirniad fydd Mr a Mrs Eurig Wyn, Waunfawr a Mrs Beryl Hall. Gorymdeithio i fand Deiniolen.

Nos Wener, Gorffennaf 19: Noson Gymdeithasol i'r Pentref yng Ngharreg Brân, Llanfairpwll. Enwau os gwelwch yn dda i **Elisabeth Jones, 17 Bryntirion**. Croeso i blant hefyd.

CLWB YR HEULWEN: Mehefin 18 cafwyd pnawn diddorol iawn yng nghwmni Rol Williams, Waunfawr.

Bu'n olrhain hanes trên bach yr Wyddfa. Diolchwyd iddo gan Mrs D. Fisher.

Dymunwyd gwellhad buan i Mrs J.P. Jones a Mrs Rees Thomas. Croesawyd Mrs M.J. Roberts i Lys y Gwynt. Rhoddwyd y te gan Mrs B. Evans a Mrs N. Roberts. Diolchwyd iddynt gan Mrs K. Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs N. Roberts, Llys y Gwynt.

Bydd y Trip Dirgel yn mynd ar Orffennaf 20. Enwau i **Mrs Percy Williams** neu **Mrs Mary Davies** cyn gynted â phosibl.

Bydd y cyfarfod nesaf, ddydd Mawrth, Gorffennaf 16.

PWYLLGOR Y NEUADD: Ar fore Sadwrn, Mehefin 22, daeth criw dewr ac anturus ynghyd i Neuadd yr Eglwys, Penisarwaun i gychwyn ar daith gerdded nodedig er budd cronfa'r Neuadd bentref. Selwyn Jones, Gwyddfor a Tegid Roberts, Arwel, oedd wedi trefnu'r daith a pharatoi'r mapiau. Diolch yn fawr iddynt.

Cyn cychwyn o'r neuadd cawsom gyfle i dynnu'r rhifau buddugol yn y Clwb 100 am y mis. Yr enillwyr oedd: 1. £20, Carys Jones, Porthaethwy, 2. £12, Wendy Thomas, 4 Bryntirion, 3. £8, Janice Jones, Tyddyn Perthi.

Wedyn dyma bawb yn cychwyn ar daith o tua 10 km ar hyd llwybrau cyhoeddus a ffyrdd gwledig yr ardal. Cawsom dywydd sych a phroffod y daith yn un eithriadol o lwyddiannus. Mae'n rhy gynnar hyd yn hyn i wybod faint o elw a gafwyd, ond mae'n ymddangos y cawn tua £150 tuag at y Neuadd. Diolch yn fawr i'r cerddwyr a'r noddwyr. Diolch yn arbennig i Anti Mary ac Ann am eu caredigrwydd yn paratoi cawl a diod i bawb yn Neuadd yr Eglwys ar ddiwedd y daith.

Cofiwch am daith Arwel Jones, Pant Hywel, er budd cronfa'r Neuadd. Mae'r manylion ar gael yn y rhifyn hwn.

LLONGYFARCHIADAU: Mehefin 15 dathlodd Mr a Mrs John Griffiths, Cerrig Gwynion, Waun, Penisarwaun eu priodas euraidd. Llongyfarchiadau a phob bendith.



Y criw dewr cyn mentro ar y daith nodedig er budd cronfa Neuadd Penisarwaun.



Llun Paula Jane Radnor, Ty'n Weirglodd, Penisarwaun ac Alun Austin Roberts, Y Bontnewydd ar ôl eu priodas yn Eglwys y Santes Helen, Penisarwaun yn ddiweddar.

ARHOLIADAU CERDDORIAETH COLEG CERDD Y DRINDOD LLUNDAIN

Bu'r canlynol o blant bro'r Eco yn llwyddiannus yn eu harholiadau dan nawdd y Coleg uchod:

Canu'r piano - gradd 3: Catrin Gwyn, Min y Nant, Cwm-y-glo; **Gradd 4**: Einir Gwyn, Min y Nant. **Gradd 5**: Elen Wyn Roberts, Afon Rhos, Llanrug a Gwenno Parri, Morwel, Ceunant. **Canu'r Recorder: Gradd 2**: (gydag anrhydedd): Parti Recorder Ysgol Gynradd Bethel. **Gradd 4**: Lynn Crowther Roberts, Tan y Buarth, Bethel. **Arholiadau ysgrifenedig, Gradd 3**: (gyda theilyngdod): Olwen Meredydd Jones, Pant Hywel, Penisarwaun, **Gradd 3** (gydag anrhydedd): Catrin Gwyn, Min y Nant, Cwm-y-glo. **Gradd 4**: Einir Gwyn, Min y Nant. **Gradd 5**: Alwen Jane Jones, 1, Tai Orwig, Brynrefail.

Hyfforddir y plant gan Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed, Brynrefail.

AM DDEWIS HAEL A
GWASANAETH CYFEILLGAR
DEWCH I

SIOP GRON
A SWYDDFA'R POST
PENISARWAUN

Ffôn:

Llanberis 871272

CANOLOG I'R FRO



YN EISIAU – POBL IFANC A BYWIOG

Mae cwmni teledu o Fangor yn chwilio am gyflwynydd, neu efallai dau gyflwynydd ar gyfer cyfres 12 wythnos o ganu cyfoes mae'n bwriadu gynhyrchu ac fydd yn ymddangos ar S4C.

Teledu Tŵr oedd yn gyfrifol am gyfres llwyddiannus 'Drannoeth y Ffair' a ddarlledwyd yn ystod tri mis cyntaf y flwyddyn hon. Fe recordiwyd y rhaglenni yn hen Sinema'r Majestic yng Nghaernarfon mis Hydref y llynedd. Yn y cyfamser gwariodd y perchennog oddeutu £300,000 ar yr adeilad ac fe'i ail-agorwyd fel canolfan adloniant ddechrau mis Mai.

Yn ôl llfarydd ar ran Teledu Tŵr mae'r cwmni yn gobeithio dod o hyd i bobl ifanc bywiog gyda diddordeb mewn cyflwyno cyfres o'r fath. Mae'n ofynnol bod ganddynt ddiddordeb yn y byd canu cyfoes Cymreig a'r un rhyngwladol. Mae'r cwmni, yn naturiol, yn barod i ystyried merched a hogiau ond ni fyddant yn cyfyngu i bobl profiadol y cyfryngau yn unig. "Un feiriadaeth a glywyd yn aml yn y dyddiau cyn sefydlu'r sianel oedd mai'r un hen wynebau welir." Yn ffodus mae'r profiad a gafwyd yn un hollol wahanol a gwelwyd llawer o wynebau newydd yn dod i'r amlwg.



Os oes diddordeb gan unrhyw un i ymgeisio am y swydd neu swyddi, dylid gyrru llun diweddar a chefnidir ysgrifenedig i'r cwmni yn 320 Stryd Fawr, Bangor. Y bwriad yw cysidro pob cais ac, o bosib, cynnal arbrofion yn ystod yr wythnosau nesaf. Fe recordir mwyafrif o'r gyfres ddiwedd Hydref.

Cysyllter â Dafydd Wyn Jones (0248) 351005, 320 Stryd Fawr, Bangor.

CANOLFAN LÔN YR ABATY

Agorwyd Canolfan newydd ym Mangor yn ddiweddar, yn 7 a 9 Lôn yr Abaty mewn adeiladau o eiddo Awdurdod Iechyd Gwynedd a ddefnyddiwyd, cyn dyfodiad Ysbyty Gwynedd, fel Clinic i gleifion allanol. Dau cyllid y project ar cyd oddi wrth yr Awdurdod, y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r sector gwirfoddol a gyda chymeradwyaeth y Swyddfa Gymreig hyd at Fehefin 1987.

Bydd y Ganolfan yn cynnig cymorth a chynngor i bobl sydd o dan straen oherwydd amryw resymau ac yn trefnu gweithgareddau i liniaru unigedd ac iselder yn y gymuned.

Er bod straen yn brofiad cyffredin na ellir ei osgoi, ac a all fod yn niweidiol i'r unigolyn, yn ddiau gellir gwneud llawer i'w liniaru. Gall profedigaeth, colli swydd neu anghydfod priodasol oll greu straen a'r angen am gymorth. Er, fel y dywedwyd eisoes, ond fe ddawedwyd hefyd gall cyngor, cefnogaeth a gwybodaeth fod o fudd pan fydd amgylchiadau'n anodd.

Mae'r adeilad yn un helaeth ar dri

llawr efo tair ystafell cyfarfod (gellir eu defnyddio trwy drefnu ymlaen llaw efo'r trefnydd), cegin, swyddfeydd ac ystafelloedd cynghori.

Rhoddwyd lle eisoes yn y Ganolfan i Samariaid Gwynedd, Cyngor Clwyd a Gwynedd ar Alcoholiaeth, MIND Bangor, a Changen Bangor Cyngor Cyfarwyddo Pridasol Gogledd Cymru.

Mae trefnydd y Ganolfan, Alison Pearson, a fu'n gweithio yno ers ddechrau Mawrth, wrthi'n paratoi gwasanaeth gwybodaeth yn nerbynfa'r Ganolfan. Bydd gwybodaeth, taflenni, a.y.y.b. ar gael ynglŷn â'r holl grwpiau gwirfoddol a leolir yn yr adeilad ynghyd â gwybodaeth a rhifau cymdeithasau eraill sy'n darparu cymorth a chefnogaeth yn y gymuned.

Am wybodaeth pellach am weithgareddau a gwasanaethau'r Ganolfan, ffoniwch Bangor 354888 neu galwch yn 9 Lôn yr Abaty, I gysylltu â'r Samariaid ffoniwch Bangor 354646.

DYDDIADUR

GORFFENNAF:

1, Llun, DEINIOLEN: Sefydliad y Merched – arddangosiad 'Gosod Blodau' gan Miss Sydney Roberts.

4, Iau, PENISARWAUN: Cyfarfod i'r rhai â diddordeb yn yr Ysgol Feithrin am 10.00.

5, Gwener, DEINIOLEN: Noson Goffi yng ngofal chwiorydd y Cyngor Eglwys y Ganolfan. Yr elw er budd Cartrefi Dr Barnardo.

LLANBERIS: Te yr Henoed.

6, Sadwrn, PENISARWAUN: Tripiâu Ysgolion Sul Capel Bosra ac Eglwys Santes Helen i'r Rhyl.

BETHEL: Trip Ysgol Sul Capel Bethel i'r Rhyl.

LLANBERIS: Tripiâu Ysgolion Sul Capel Coch ac Eglwys Sant Padarn i'r Rhyl.

WAUNFAWR: Trip Ysgol Sul Capel Bethel i'r Rhyl.

7-13: Wythnos Garnifal BETHEL.

Wythnos Garnifal PENISARWAUN.

7, Sul, DEINIOLEN: Gwasanaeth Undebol i blant yr ardal.

PENISARWAUN: Cymanfa Ganu am 8 o'r gloch yng ngofal Arwel gydag eitemau gan Barti'r Heulwen.

8-13: Wythnos Garnifal CWM-Y-GLO.

8, Llun, CWM-Y-GLO: Bingo am 7 o'r gloch.

DEINIOLEN: 'Pronto' yn yr Ysgol Feithrin am 6.30.

PENISARWAUN: Bingo yn Neuadd yr Eglwys am 7.00.

9, Mawrth, LLANBERIS: Cyfarfod Blyneddol y Clwb Pêl-droed yn Angorfa am 8.00.

CWM-Y-GLO: Disgo i'r plant am 6.00.

DEINIOLEN: Bore Agored yn yr Ysgol Feithrin rhwng 9.15 ac 11.00.

Disgo Cymraeg Awyr Agored yn Iard yr Ysgol Feithrin am 6.30.

PENISARWAUN: Gemau Giamocs yng Nghaeau King am 6.30.

10, Mercher, CWM-Y-GLO: Helfa Drysor am 6.30.

DEINIOLEN: Cyngerdd y plant am 6.30.

WAUNFAWR: Clwb Gwryfai yn cyfarfod ym Mod IWAN am 3.15.

PENISARWAUN: Noson i blant yr Ysgol Gynradd a dosbarth cyntaf Ysgol Brynrefail.

11, Iau, CWM-Y-GLO: Cystadleuaeth Dartiau yng Ngwesty'r Wyddfa.

DEINIOLEN: Trip yr Ysgol Feithrin.

Gêm Cwis 'Bull's Eye' yn yr Ysgol Feithrin am 8.00.

PENISARWAUN: Mabolgampau.

12, Gwener, LLANRUG:

Rhoddion (parhad)

£1: Mrs Nellie Hughes, Erw Fair, Deiniolen; Mrs Gibson, 17 Hafod Oleu, Deiniolen; Mrs J. Jones, 2 Hafod Oleu, Deiniolen; Mrs Catherine Jones, 33 Hafod Oleu, Deiniolen; Mr Gwilym Williams, 9 Rhes Fictoria, Deiniolen; Mr Gwynfor Jones, 38 Pentre Helen, Deiniolen; Mr B. Parry, 6 Bro Deiniol, Deiniolen.

Rydym yn ymddiheuro'n arw iawn i Mrs Katie Griffith, Arwelfa, Dinorwig am adael ei henw hi allan o restr rhoddion rhifyn Mai. Diolch yn fawr iddi am ei rhodd o £3.

Mabolgampau yng nghae'r Ysgol Gynradd.

CWM-Y-GLO: Chwaraeon am 6.30.

DEINIOLEN: Mabolgampau i blant dan 12 oed yn Iard yr Ysgol Feithrin am 6.00.

PENISARWAUN: Disgo yn y Clwb.

LLANBERIS: Noson 'Bingo a Bwyd' yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30. Yr elw er budd Cronfa Ymchwil y Galon.

13, Sadwrn, DEINIOLEN: Helfa Drysor Cangen Plaid Cymru.

WAUNFAWR: Ffair Haf Awyr Agored yr Ysgol Feithrin tu ôl i'r Ganolfan am 2.00 o'r gloch.

CWM-Y-GLO: Y Carnifal am 2.00 o'r gloch.

PENISARWAUN: Y Carnifal am 2.00 o'r gloch.

BETHEL: Y Carnifal.

14-20: Wythnos Garnifal Llanberis.

14, Sul, LLANBERIS: 'Noson o Gân' yng Nghapel Coch am 8 o'r gloch.

PENISARWAUN: Sioe Geffylau ym Maes Carafanau Brynrefail am 10.00.

15, Llun, LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

Cystadleuaeth Pwl yng Ngwesty'r Padarn Lake am 8.00.

16, Mawrth, LLANBERIS: Mabolgampau yn Nôl y Goeden am 5.45.

PENISARWAUN: Clwb yr Heulwen.

YR ARDAL: Yr ysgolion yn cau dros wyliadur haf.

17, Mercher, LLANBERIS: Disgo'r Carnifal yn y Ganolfan.

Cystadleuaethau Dartiau yng Ngwesty'r Dolbadarn am 7.30.

18, Iau, LLANBERIS: Cystadleuaethau Pêl-droed a Phêl-rwyd yn Nôl y Goeden.

19, Gwener, LLANBERIS: Te yr Henoed.

Bingo'r Carnifal yn y Ganolfan am 7.30.

PENISARWAUN: Noson Gymdeithasol yng Ngharreg Brân, Llanfairpwll.

20, Sadwrn, WAUNFAWR: Barbaciw Cangen Plaid Cymru.

PENISARWAUN: Taith Ddirgel Clwb yr Heulwen.

LLANBERIS: Y Carnifal 12.30.

Ras yr Wyddfa am 2.30.

24, Mercher, LLANBERIS: Bingo yn y Ganolfan am 7.30. Yr elw er budd Apêl 'Scanner'.

27, Sadwrn, LLANRUG: Trip pobl ifanc Gofalaeth Capel Mawr a'r Cylch i'r 'Sun-Centre' yn y Rhyl.

LLANBERIS (Atodiad)

CYDYMDEIMLO: Yn Ysbyty Gwynedd, Mehefin 12, bu farw Mrs Blodwen Evans, Caledfryn, 'Rallt Goch' yn 88 oed. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i theulu.

LLONGYFARCHIADAU:

– I Delyth Ironwy Parry, Llys Orwig, Stryd Newton ar ennill Gradd B.A. mewn Cyfathrebu yn y Coleg Normal, Bangor. Gobeithia Delyth ddilyn gyrfa ym myd y Cyfryngau. Dymunwn pob llwyddiant iddi yn y dyfodol.

– I Dawn Hughes, 29, Maes Padarn a Dafydd Pritchard, Llys Arthur ar eu dyweddïad.

– I John Gwynedd Jones, 3 Maes Padarn a Miss Heather Wynne Roberts, 23 Stryd Goodman ar eu priodas.

– I Linda Prydderch am ddod yn 1af yn ras genethod dan 12 oed yn Ras yr Urdd a gynhaliwyd ar Fehefin 19. I Jason Baylis am ddod yn 5ed yn ras bechgyn dan 12 oed. I Shane Price am ddod yn 8ed, a Sion Roberts am ddod yn 12ed.

– I Julie Baylis am ddod yn 1af yn ras genethod dan 14 oed ac Eirian Roberts am ddod yn 2il. I Paul Prydderch am ddod yn 1af yn ras bechgyn dan 14 oed.

Da iawn chi'r plant. Roedd dros 100 yn cystadlu yn y ras.

YN YR YSBYTY: Dymuniadau gorau i Mrs Jones, Glyder, Ffordd Capel Coch sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd.

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas



Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD
GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

